Estyn

Medi 2023



# Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon

## Sut mae sefydliadau addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn cynorthwyo athrawon dan hyf-forddiant i wella eu medrau Cymraeg, gan gynn-wys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

**Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru.**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys Tudalen


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Cyflwyniad** | **6** |
| **Cefndir** | **7** |
| **Cefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg mewn partneriaethau AGA** | **11** |
| Darpariaeth sesiynau datblygu'r Gymraeg yn y rhaglenni a addysgir (y brifysgol) | 11 |
| Datblygu'r Gymraeg yng nghyd-destun pwnc neu gyfnod | 15 |
| Cysylltu theori ac arfer | 17 |
| **Cefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg wrth gael profiad ysgol** | 19 |
| **Hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant** | 23 |
| Effaith y ddarpariaeth | 24 |
| Recriwtio | 24 |
| **Cefnogaeth effeithiol i'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon a thu hwnt** | **27** |
| **Atodiad 1: Continwwm datblygu'r Gymraeg mewn partneriaethau addysg gychwynnol athrawon** | **28** |
| **Atodiad 2: cwestiynau'r holiadur** | **34** |
| **Dulliau a sail y dystiolaeth** | **39** |
| **Geirfa** | **41** |
| **Cyfeiriadau** | **43** |

## Crynodeb gweithredol

Ffocws yr adroddiad hwn yw darpariaeth partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA) i gefnogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu medrau Cymraeg, gan gynnwys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Casglasom tystiolaeth o'r holl bartneriaethau AGA yng Nghymru gan gynnwys cyfweliadau gydag arweinwyr, ymweliadau i ysgolion a chyfweliadau gyda grwpiau o fyfyrwyr. Datblygasom holiaduron ar gyfer myfyrwyr ac athrawon newydd gymhwyso. Mi wnaethom ddadansoddi tystiolaeth o arolygon partneriaethau AGA a sectorau ysgolion a gynhelir. Yn ogystal, cawsom gyfarfodydd gyda swyddogion o awdurdodau lleol, gwasanaethau gwella ysgolion a phartneriaid allweddol eraill.

Canfuom fod partneriaethau AGA yn darparu sesiynau penodol i wella medrau Cymraeg myfyrwyr tra maent yn y brifysgol. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y sesiynau hyn yn amrywio'n fawr. Mewn ychydig achosion, nid ydynt yn cael eu cynnal yn ddigon rheolaidd neu nid ydynt yn ymateb yn ddigon penodol i anghenion myfyrwyr er mwyn eu paratoi i ddefnyddio eu medrau Cymraeg wrth addysgu mewn ysgolion. Yn aml, nid oes cysylltiad rhwng y sesiynau a ddarperir ar gyfer datblygu medrau Cymraeg a'r dysgu sy'n benodol i bwnc neu gyfnod, yn arbennig yn y rhaglenni uwchradd. Mae hyn yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd. Yn ogystal, dim ond mewn ychydig o bartneriaethau mae cyfleoedd i fyfyrwyr wneud cysylltiadau rhwng yr hyn maent wedi dysgu am fethodoleg addysgu'r Gymraeg yn y brifysgol ac ymarfer yr ystafell ddosbarth ar brofiad ysgol. O ganlyniad, er bod llawer o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau Cymraeg personol yn eu sesiynau medrau Cymraeg, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd pan ar brofiad ysgol.

Mewn llawer o bartneriaethau nid oes gweledigaeth a rennir ac nid oes dealltwriaeth glir a chyson o ddisgwyliadau'r bartneriaeth ar gyfer y Gymraeg ymysg ysgolion partner. Nid yw partneriaethau yn aml yn cynllunio yn ddigon strategol y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y rhaglenni. Golyga hyn bod y ddarpariaeth yn ddarniog neu ystyrir y Gymraeg fel agwedd ynysig. Yn gyffredinol, nid yw partneriaethau yn hunanwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y rhaglenni yn ddigon effeithiol. Nid ydynt yn ystyried y cynnydd a wna myfyrwyr wrth ddefnyddio eu medrau Cymraeg wrth addysgu ac effaith hynny ar fedrau a phrofiadau disgyblion. O ganlyniad nid ydynt yn adnabod y cryfderau a meysydd i'w datblygu yn ddigon miniog i'w galluogi i weithredu gwelliannau.

Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o arferion effeithiol. Mewn ychydig o bartneriaethau, mae rôl y mentor iaith yn dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiadau'r myfyrwyr ac yn eu helpu i ddatblygu eu medrau iaith tra ar brofiad ysgol. Yn aml, ble mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ac addysgeg myfyrwyr yn gadarn iawn mae'r Gymraeg yn rhan o weledigaeth a chynllun gwella'r bartneriaeth. Yn ogystal, mae partneriaethau yn elwa os yw ysgolion arweiniol ac ysgolion y bartneriaeth ehangach yn blaenoriaethu datblygu'r Gymraeg. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr yn gweithredu yn strategol er mwyn sicrhau bod eu cymuned ysgol yn deall pwysigrwydd y Gymraeg. Maent yn darparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu haddysgeg caffael iaith. Mae hyn yn

dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar brofiadau myfyrwyr sy'n cael eu lleoli yn yr ysgolion hyn ac ar gynnydd disgyblion.

Nid oes cysondeb yn y cynnig dysgu proffesiynol gan bartneriaid gwella ysgolion mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar gyfer cefnogi medrau ieithyddol ymarferwyr addysg, na chwaith cefnogaeth ar gyfer addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn nad yw athrawon, yn enwedig yn y sector uwchradd, bob amser yn hyderus wrth gefnogi disgyblion i gaffael a datblygu eu medrau Cymraeg mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cael effaith ar hyder athrawon wrth fentora myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon. Nid oes cysylltiad amlwg rhwng y gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ystod AGA a rhaglenni ar gyfer athrawon newydd gymhwyso.

Ychydig o gyfleoedd sydd i ysgolion a phartneriaethau gydweithio a rhannu arferion effeithiol am eu darpariaeth i gefnogi medrau Cymraeg myfyrwyr a'u staff ehangach. Mewn ychydig enghreifftiau, mae ysgolion yn cydweithio gyda'u partneriaid yn y brifysgol i gefnogi ymdrechion i recriwtio myfyrwyr i raglenni AGA. Mae'r partneriaethau yn datblygu eu harferion recriwtio er mwyn ymateb i'r her o ddenu myfyrwyr i hyfforddi fel athrawon a chwblhau rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cynnig argymhellion ar gyfer partneriaethau AGA, arweinwyr mewn ysgolion a Llywodraeth Cymru.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae anghysondebau yn y ffyrdd mae partneriaethau addysg gychwynnol athrawon yn gweithredu i gefnogi datblygiad y Gymraeg. Prif ffocws y partneriaethau yn y maes hwn yw datblygu medrau Cymraeg personol y myfyrwyr. Yn aml, nid oes digon o ystyriaeth i sut mae myfyrwyr yn defnyddio eu medrau i gefnogi cynnydd disgyblion yn y Gymraeg tra ar brofiad ysgol.

2 Mae'r hyn a olygir wrth 'astudio trwy gyfrwng y Gymraeg' yn amrywio ar draws y partneriaethau. Ble mae myfyrwyr yn derbyn cyfleoedd i brofi addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn fuan yn eu rhaglenni, caiff effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u parodrwydd i addysgu trwy gyfrwng yr iaith. Mae myfyrwyr sydd yn ansicr am ddewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn elwa o gyfleoedd i weithio gyda chyd-fyfyrwyr Cymraeg a chefnogaeth tiwtoriaid a mentoriaid Cymraeg.

3 Yn gyffredinol, mae partneriaethau yn ffocysu ar ddarparu sesiynau penodol i wella medrau Cymraeg myfyrwyr tra maent yn y brifysgol. Yn aml, mae'r sesiynau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ymarfer eu medrau ieithyddol personol dan arweiniad tiwtor y Gymraeg. Mewn ychydig achosion, nid yw'r sesiynau hyn yn cael eu hamserlennu trwy gydol y rhaglen gan olygu nad yw myfyrwyr yn datblygu eu medrau yn llawn. Yn ogystal, nid yw'r sesiynau pob amser yn ymateb yn ddigon penodol i anghenion myfyrwyr er mwyn eu paratoi i ddefnyddio eu medrau Cymraeg wrth addysgu mewn ysgolion.

4 Mae partneriaethau yn defnyddio'r fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg yn addas i helpu myfyrwyr i hunan asesu eu gallu ieithyddol a'u cynnydd. Yn aml, defnyddir yr hunan asesiad hwn i osod myfyrwyr mewn grwpiau ar gyfer sesiynau a addysgir. Ble mae niferoedd y myfyrwyr yn fach, mae diwallu'r ystod o anghenion ieithyddol yn y grwpiau yn heriol.

5 Mae llawer o bartneriaethau yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant, hunaniaeth a hanes Cymru. Maent yn cefnogi hyn trwy drefnu ymweliadau a chyfleoedd i brofi iaith a diwylliant Cymru.

6 Yn aml, nid oes cysylltiad rhwng y sesiynau a ddarperir gan y brifysgol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg a sesiynau penodol i bwnc neu gyfnod. Golyga hyn nad yw myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth lawn o sut i gymhwyso eu medrau Cymraeg wrth ddefnyddio addysgeg caffael a datblygu iaith yn y dosbarth. Mae argaeledd sesiynau pwnc uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio. Dim ond mewn ychydig iawn o achosion mae partneriaethau AGA yn cydweithio er mwyn galluogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i gyd-drafod gyda myfyrwyr sefydliadau eraill mewn pynciau ble mae'r niferoedd yn isel iawn.

7 Mewn ychydig o bartneriaethau mae ysgolion arweiniol yn darparu sesiynau penodol i gefnogi myfyrwyr i feddwl sut i ddatblygu'r Gymraeg gyda disgyblion, ac i helpu myfyrwyr wneud cysylltiadau rhwng theori ac arfer.

8 Er bod gan ysgolion ddealltwriaeth gyffredinol addas o ddisgwyliadau'r

partneriaethau, nid oes dealltwriaeth glir a chyson o'r disgwyliadau parthed y Gymraeg. Mae amrywiaeth yn nealltwriaeth ysgolion arweiniol ac ysgolion y bartneriaeth ehangach, o fewn ac ar draws sectorau a rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Ble mae'r gefnogaeth i ddatblygu medrau Cymraeg myfyrwyr yn gadarn mae arweinwyr yn rhoi lle blaenllaw i ddatblygu'r iaith yng ngweledigaeth a chynllun gwella'r ysgol.

9 Er bod enghreifftiau o arfer effeithiol ble mae mentoriaid yn rhoi sylw parhaus i ddatblygu medrau personol ac addysgeg caffael iaith myfyrwyr, mae hyn yn anghyson o fewn ac ar draws y partneriaethau.

10 Mae gan tua hanner y partneriaethau rôl benodol 'mentor iaith' i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg tra ar brofiad ysgol. Ble mae'r rôl hon wedi ei datblygu'n effeithiol mae'n dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar brofiadau myfyrwyr gan eu helpu i wneud cysylltiadau rhwng darpariaeth y sesiynau addysgir gan y brifysgol a'u profiadau ysgol. Golyga hyn bod myfyrwyr yn cymhwyso eu dysgu yn effeithiol gan ddylanwadu ar gynnydd ym medrau Cymraeg disgyblion.

11 Mae disgwyl i fyfyrwyr gwblhau tasgau er mwyn dangos eu cynnydd yn y Gymraeg gan ddefnyddio'r fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg ac er mwyn bodloni statws athro cymwysedig. Mae gofynion y tasgau yn amrywio ar draws y partneriaethau ac nid yw myfyrwyr pob amser yn deall eu perthnasedd i'w profiadau ysgol.

12 Yn gyffredinol, nid yw partneriaethau yn hunanwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn ddigon miniog. Nid ydynt yn ystyried yn llawn yr hyn addysgir gan y brifysgol, sesiynau theori ac arfer a phrofiadau myfyrwyr tra ar brofiad ysgol wrth werthuso cryfderau ac agweddau i'w datblygu. Yn ogystal nid ydynt yn ystyried yn ddigon manwl effaith y ddarpariaeth ar sut mae myfyrwyr yn defnyddio'r Gymraeg pan ar brofiad ysgol, ac effaith hynny ar gynnydd disgyblion yn y Gymraeg.

13 Ychydig o gyfleoedd sydd i bartneriaethau ac ysgolion gydweithio a rhannu arferion effeithiol am eu darpariaeth i gefnogi'r Gymraeg ar draws y partneriaethau ac yn ehangach gyda darparwyr addysg eraill.

14 Mae llawer o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau Cymraeg personol yn ystod eu rhaglenni AGA. Mewn ychydig enghreifftiau ble mae myfyrwyr yn gwneud cynnydd cryf iawn, mae arweinwyr yn aml yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ochr yn ochr â datblygu addysgu effeithiol. Ble nad yw cynnydd myfyrwyr cystal, ychydig iawn o'r iaith a ddefnyddir neu nid oes ffocws ar addysgeg effeithiol gan olygu mai cyfyng iawn yw cynnydd disgyblion yn y Gymraeg.

15 Mae mwyafrif y myfyrwyr ar raglenni cynradd yn datblygu dealltwriaeth addas o sut i gefnogi medrau Cymraeg disgyblion. Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr sydd yn addysgu pynciau uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn llawn deall sut i gefnogi a datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae llai o gysylltiad rhwng sesiynau datblygu'r Gymraeg, sesiynau pynciol a'r ddarpariaeth mewn ysgolion yn y rhaglenni uwchradd. Yn ogystal, oherwydd diffygion yn y cynnig dysgu proffesiynol cyffredinol ar gyfer yr agwedd hon, nid yw mentoriaid uwchradd yn hyderus wrth fodelu a chefnogi myfyrwyr i ddatblygu addysgeg caffael a datblygu iaith.

16 Nid oes cysylltiad amlwg rhwng y gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg a rhaglenni ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (ANG). Mae amrywiaeth yn y cynnig dysgu proffesiynol ar draws Cymru ar gyfer cefnogi ymarferwyr addysg i wneud cynnydd yn eu medrau ieithyddol a'u medrau addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

17 Mae'r nifer o fyfyrwyr sydd yn dewis cwblhau rhaglen AGA trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n rhy isel ac nid yw'n bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn amlwg iawn yn y rhaglenni uwchradd. Mae partneriaethau yn gynyddol ddatblygu eu harferion recriwtio er mwyn ceisio denu myfyrwyr i hyfforddi fel athrawon a chwblhau rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Argymhellion

**Dylai partneriaethau addysg gychwynnol athrawon:**

A1 Cynllunio'n fwriadus i ddatblygu'r Gymraeg ymhob agwedd o'r rhaglenni addysg gychwynnol athrawon er mwyn sicrhau cefnogaeth gyson i fyfyrwyr trwy gydol eu profiad, gan gynnwys pan ar brofiad mewn ysgolion

A2 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau Cymraeg yn datblygu medrau personol ac addysgu myfyrwyr i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Dylai hyn gynnwys addysgeg caffael a datblygu iaith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog

A3 Monitro a gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg gan ystyried sut mae myfyrwyr yn defnyddio eu medrau Cymraeg a'u haddysgeg caffael iaith i gefnogi cynnydd disgyblion mewn ysgolion

A4 Greu cyfleoedd i bartneriaethau AGA gydweithio er mwyn datblygu ac ehangu'r gefnogaeth ar gyfer addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

**Dylai arweinwyr mewn ysgolion partneriaeth:**

A5 Flaenoriaethu a chreu strategaeth bendant ar gyfer datblygu'r Gymraeg gan ymateb i ddisgwyliadau'r partneriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A6 Sicrhau eglurder yn nisgwyliadau'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth fel bod ffocws clir ar effaith ymarfer athrawon ac arweinwyr ar fedrau Cymraeg disgyblion

A7 Sicrhau bod partneriaethau AGA yn cydweithio gyda phartneriaid gwella ysgolion fel bod darpariaeth fwy cyson, cydlynol ac arbenigol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y gweithlu addysg fel rhan o'r continwwm dysgu proffesiynol

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at Estyn 2022-2023. Nod yr adroddiad yw rhoi trosolwg o sut mae partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu medrau Cymraeg, gan gynnwys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gohiriwyd yr adolygiad hwn yn sgil y pandemig o Lythyr Cylch Gwaith y Gweinidog Addysg 2020-2021.

Bydd yr adroddiad o ddiddordeb i ymarferwyr ac arweinwyr partneriaethau addysg gychwynnol athrawon, ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hefyd yn helpu i lywio gwaith gweithredu Cwricwlwm i Gymru gan fod datblygu'r Gymraeg yn elfen fandadol o'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sut mae partneriaethau addysg gychwynnol athrawon yn cynorthwyo a chefnogi athrawon dan hyfforddiant i:

- wella eu medrau Cymraeg personol
- addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg
- ddatblygu addysgeg sy'n cefnogi disgyblion i gaffael a datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog
- wneud cysylltiadau rhwng y cymorth a gynigir yn ystod rhaglenni addysg gychwynnol athrawon â'r dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso

Mae'r adroddiad yn cynnwys disgrifiadau o nodweddion cyffredin darpariaeth effeithiol gan ganolbwyntio ar:

- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y rhaglen addysgir gan y brifysgol
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion arweiniol ac ysgolion y bartneriaeth ehangach
- effaith arweinyddiaeth ar ddatblygu'r Gymraeg

Yn ogystal mae'r adolygiad yn amlinellu enghreifftiau o arfer effeithiol mewn delweddau, cameos ac astudiaethau achos byr.

Mae'r adroddiad yn defnyddio canfyddiadau 3 arolygiad partneriaethau AGA a gynhaliwyd rhwng 2021 a 2023, ymweliadau â phartneriaethau AGA gan gynnwys ymweliadau i 5 prifysgol ac 17 o ysgolion partner. Dosbarthwyd holiaduron ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd gymhwyso (ANG). Mae'r cwestiynau yn Atodiad 2. Ymatebodd 108 o fyfyrwyr a 106 o athrawon newydd gymhwyso. Ymgynghorodd arolygwyr ag ystod o ran-ddeiliaid hefyd, gan gynnwys staff awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol a chynrychiolwyr o sefydliadau cenedlaethol megis y Ganolfan Dysgu Cymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## Cefndir

Mae saith partneriaeth (sy’n cynnwys prifysgolion a’u hysgolion partner) wedi’u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i ddarparu addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru. Mae’r partneriaethau’n cynnig llwybrau israddedig ac ôl-raddedig ac ers mis Medi 2020 mae llwybr rhan amser a llwybr wedi’i seilio ar gyflogaeth ar gael trwy Bartneriaeth y Brifysgol Agored. Mae’r ddarpariaeth i gefnogi datblygiad medrau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn allweddol i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru i weld miliwn o bobl sy’n gallu mwynhau siarad a defnyddio’r Gymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017b)

Mae ‘Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg’ (Llywodraeth Cymru, 2017b) yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wireddu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'n cynnwys cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn sy’n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg dros amser ac i drawsnewid y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu i bob dysgwr. Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021) ei hail raglen waith bum mlynedd ar gyfer Cymraeg 2050 ble mae’n cydnabod na fodlonwyd targedau 2021 i gynyddu’r gweithlu addysg i ddiwallu anghenion addysg cyfrwng Cymraeg a datblygu medrau Cymraeg yr holl ddysgwyr. Er mwyn mynd i’r afael â hyn, mae’r rhaglen waith yn cynnwys cyflwyno cynllun 10 mlynedd i gynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg a gwella medrau ieithyddol y gweithlu addysg. Yn ogystal, cyfeiria at ehangu rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg i gefnogi dysgu’r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chreu prosiect peilot i gymell siaradwyr Cymraeg o helpu gydag addysgu Cymraeg mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer Cymraeg 2050 i ymateb i’r rhaglen waith hon.

Mae cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg (Llywodraeth Cymru, 2022) yn nodi'r camau mae a bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddatblygu gweithlu addysg o ansawdd uchel a fydd yn galluogi pob dysgwr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn bywyd beunyddiol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu dysgu Cymraeg fel pwnc, a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun yn nodi'r angen i ddatblygu sgiliau Cymraeg personol pob myfyriwr AGA ynghyd a’u haddysgeg i allu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg trwy nodi dylai partneriaethau anelu i sicrhau bod tri deg y cant o fyfyrwyr yn hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg . Yn ogystal, mae'n amlinellu amcanion a chamau gweithredu ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ei gweledigaeth.

Yn Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2022b) ganlyniadau Cyfrifiad 2021 am sgiliau Cymraeg pobl tair oed neu hŷn sy’n byw yng Nghymru. Ar ddiwrnod y cyfrifiad ym Mawrth 2021, dywedodd 538,300 o bobl tair oed a hyn eu bod yn gallu siarad Cymraeg, sef 17.8% o’r boblogaeth. Mae hyn yn ostyngiad o 23,700 o bobl ers cyfrifiad 2011 (1.2%). Bu gostyngiad o 6.0 pwynt canran mewn plant rhwng 5 a 15 oed y nodwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021.

Ym Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2023a) ddogfen ymgynghorol ar gynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg. Mae'r ddogfen yn cydnabod bod heriau arwyddocaol i dyfu'r gweithlu addysg sydd â'r sgiliau iaith angenrheidiol i alluogi ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a gwella deilliannau ieithyddol disgyblion ymhob ysgol. Yn ogystal, mae'n cyfeirio at yr angen i barhau i gynyddu faint o ddisgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a gwella'r ddarpariaeth a'r cyswllt gyda'r Gymraeg ym mhob ysgol fel bod cyfle i ddisgyblion gyrraedd y deilliant ieithyddol disgwyliedig a nodir, sef lefel gyfystyr â B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) (Cyngor Ewrop). Mae'r papur gwyn yn amlinellu cynigion gan gynnwys datblygu'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg a chynllunio gweithlu.

Yn 2022-2023, arweiniodd oddeutu chwarter o arolygiadau Estyn mewn ysgolion at argymhelliad ar gyfer y Gymraeg. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae argymhellion yn aml yn cyfeirio at ddarpariaeth ar gyfer siarad a gwrando. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae argymhellion yn cyfeirio'n fwy cyffredinol at ddarpariaeth ar gyfer medrau disgyblion. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae argymhellion yn cynnwys cyfeiriadau at ddarpariaeth i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a hunaniaeth Gymreig. Mewn ychydig ysgolion ble adnabuwyd bod y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn gryfder, gofynnodd Estyn am astudiaeth achos. Er enghraifft, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair: Defnyddio dysgu proffesiynol i godi safonau Cymraeg i ddisgyblion ar draws yr ysgol | Estyn (llyw.cymru)

Ym Medi 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn AGA (Bryer a Duggan,2018). Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at heriau a meysydd i'w datblygu. Mae nifer o'r materion hyn yn parhau i effeithio ar y gefnogaeth a roddir i ddatblygu'r Gymraeg wedi cyfnod y pandemig. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn cyfeirio at anghysondebau yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ynghyd â diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg myfyrwyr wrth iddynt ymuno â'r gweithlu (t.87).

Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2018) feini prawf ar gyfer achredu rhaglenni newydd addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Amlinellodd hyn gyfrifoldebau Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys y cymorth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu i ddatblygu medrau athrawon dan hyfforddiant yn y Gymraeg. Ym mis Mai 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2023b) feini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Cryfhawyd y disgwyliadau ynglŷn â datblygu ymagwedd strategol ar gyfer y Gymraeg o fewn partneriaethau AGA, darpariaeth i wella medrau Cymraeg yr holl fyfyrwyr AGA a darpariaeth yn Gymraeg ar gyfer y rhai sy'n dymuno dilyn gyrfaoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys 35 awr o ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn y Gymraeg.

Mae'r meini prawf yn nodi dylai partneriaethau AGA:

- asesu sgiliau Cymraeg pob athro dan hyfforddiant pan fydd yn cael ei dderbyn yn erbyn y Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg
- rhoi o leiaf 35 awr o feithrin sgiliau Cymraeg bob blwyddyn fel rhan o'u rhaglen; dylai Partneriaethau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu a methodoleg ar draws yr holl amgylcheddau dysgu yn y Bartneriaeth ar gyfer meithrin sgiliau


24 myfyrwyr unigol yn ystod y rhaglen – gall Partneriaethau hefyd fod yn awyddus i ystyried defnyddio darpariaeth genedlaethol fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol fel sy'n briodol
- asesu sgiliau Cymraeg pob athro dan hyfforddiant wrth gwblhau eu rhaglen yn unol â fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg a chyflwyno tystiolaeth i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol bob blwyddyn at ddibenion cymedroli; dylai'r asesiad hwn fwydo i'r proffiliau dechrau gyrfa er mwyn galluogi pob Athro Newydd Gymhwyso (ANG) i lywio ei ddatblygiad parhaus wrth iddo ymgymryd â'i raglen sefydlu
- sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn gyfarwydd â'r Siarter Iaith, a meithrin sgiliau llythrennedd dysgwyr Cymraeg gan gynnwys ymgyfarwyddo â'r strategaethau i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac ymgorffori'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- annog pob athro dan hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg (ni waeth p'un a yw ar gwrs sy'n ei baratoi i addysgu yn Gymraeg) i ymgymryd ag o leiaf un profiad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. (Llywodraeth Cymru, 2023b, t23-24)

Yn ogystal dylai rhaglenni AGA ar gyfer myfyrwyr sy’n bwriadu gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog gynnwys y gofynion sylfaenol canlynol:

- cymorth i fyfyrwyr feithrin y sgiliau a'r fethodoleg addysgegol sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan eu paratoi i addysgu pynciau / meysydd ac ystodau oedran perthnasol
- cymorth i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu strategaethau i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac i ymgorffori'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- cefnogi athrawon dan hyfforddiant, lle y bo angen, i fagu hyder yn eu sgiliau ieithyddol eu hunain
- caiff pob profiad ysgol prif ffrwd ei gynnal mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. (Llywodraeth Cymru, 2023b, t24)

Yn 2020-2021, yn dilyn flynyddoedd o gyfraddau recriwtio gwael, bu cynnydd cyffredinol yn nifer y myfyrwyr a gafodd eu recriwtio i raglenni AGA yng Nghymru, er bod hyn yn amrywio o bartneriaeth i bartneriaeth. Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bartneriaethau weithio tuag at recriwtio 30% o'r holl garfan fel myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Yn ôl data gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (2023c) mae cyfran y myfyrwyr AGA sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn weddol gyson ers 2013-2014. Yn 2020-2021, hyfforddodd 19.9% o fyfyrwyr AGA newydd i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, tra yn 2021-2022, roedd 20% o fyfyrwyr yn hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer y myfyrwyr uwchradd sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn achos pryder penodol. Yn dilyn gwelliant yn y gyfran oedd yn hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y pandemig (19% yn 2020-2021), gostyngodd y gyfran i 16% yn 2021-2022.  Mae data heb ei wirio yn awgrymu bod gostyngiad pellach yn 2022-2023.

**Nifer yr ymgeiswyr ar gyrsiau AGA yng Nghymru, yn ôl iaith cwrs a sector, 2018-2019 9 2021-2022**




*Data o gofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ym Mwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru ar Addysg Gychwynnol Athrawon Cymru 2021-2022 (Llywodraeth Cymru 2023c).*

Ers mis Medi 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cynllun 'Iaith Athrawon Yfory' i roi cymhelliant ariannol o £5000 i fyfyrwyr ar raglenni ôl-radd uwchradd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu’r Gymraeg fel pwnc. Dyfernir y taliad mewn dau randaliad. Y cyntaf ar ôl cwblhau rhaglen TAR sy'n arwain at ddyfarnu statws athro cymwysedig (SAC) a'r ail ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu llwyddiannus mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog neu fel athro'r Gymraeg mewn ysgol uwchradd.

Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae athrawon dan hyfforddiant yn casglu tystiolaeth i ddangos eu cynnydd yn erbyn y safonau er mwyn bodloni Statws Athro Cymwysedig (SAC) mewn Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Mae athrawon newydd gymhwyso (ANG) yn casglu tystiolaeth yn erbyn safonau sefydlu o fewn eu PDP. Anogir athrawon i gofnodi, myfyrio, rhannu a chynllunio dysgu proffesiynol gan ddefnyddio'r PDP (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae’r Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) yn cyhoeddi ystadegau blynyddol ar gyfer y gweithlu addysgu. Yn 2022, nodwyd y nifer o athrawon newydd gymhwyso cofrestredig sydd â’r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl neu’n weddol rugl yn 28.3%. Nododd 22.2% eu bod un ai wedi hyfforddi, yn gweithio neu’n teimlo’n hyderus i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl yr ystadegau roedd 33.2% o athrawon Cymru yn siaradwyr Cymraeg gyda 26.6% yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg (Cyngor Gweithlu Addysg, 2022).

## Cefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg mewn partneriaethau addysg gychwynnol athrawon

Mae partneriaethau addysg gychwynnol athrawon yn canolbwyntio yn gynyddol ar ddatblygu eu gweledigaeth a'u darpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant gan ymateb i bolisïau Llywodraeth Cymru, prosesau achredu'r CGA a chanfyddiadau ymweliadau Estyn. Mae'r ffordd mae partneriaethau yn cynllunio a gweithredu i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn amrywio'n fawr. Golyga hyn mai ychydig gysondeb sydd yn y gefnogaeth a gynigir yng Nghymru.

Yn gyffredinol, prif ffocws y partneriaethau yw datblygu medrau Cymraeg personol y myfyrwyr. Mae hyn yn ymateb i ddisgwyliadau'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. I fodloni Statws Athro Cymwysedig (SAC) disgwylir i athro ddangos 'ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnydd y Gymraeg'. Mae'r gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin yn y safonau proffesiynol yn cyfeirio at yr angen i athrawon gefnogi disgyblion i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017b).

Mae'r hyn a olygir wrth 'astudio trwy gyfrwng y Gymraeg' yn amrywio ar draws y partneriaethau. Mewn ychydig achosion, golyga bod myfyrwyr yn cwblhau eu holl brofiadau ac asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr enghreifftiau hyn, rhoddir cefnogaeth werthfawr i feithrin hyder myfyrwyr wrth ysgrifennu'n academaidd ac wrth ddefnyddio eu medrau ar lawr dosbarth. Mewn enghreifftiau eraill, mae myfyrwyr yn dewis cwblhau aseiniadau pwnc neu gyfnod yn Saesneg tra'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg pan ar brofiad ysgol. Nid ydynt felly yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o derminoleg bynciol ac addysgol yn y Gymraeg. Effeithir hyn gan argaeledd sesiynau pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig yn y rhaglenni uwchradd. Yn ogystal, mae ychydig o fyfyrwyr yn dewis cwblhau un profiad neu gyfnod cyfoethogi trwy gyfrwng y Gymraeg. Pan mae'r profiad hwn yn cael ei gwblhau yn fuan yn y rhaglen gall hyn ddylanwadu yn gadarnhaol ar hyder ac agweddau myfyrwyr tuag at addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn helpu myfyrwyr drosglwyddo i gwblhau profiad ysgol pellach ac ystyried cyfleoedd gyrfa cyfrwng-Cymraeg.

### Darpariaeth sesiynau datblygu'r Gymraeg yn y rhaglenni a addysgir (y brifysgol)

Yn gyffredinol, mae partneriaethau yn rhoi'r prif ffocws ar ddarparu sesiynau penodol i wella medrau Cymraeg myfyrwyr tra eu bod yn y brifysgol. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau AGA yn sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn tua 25 awr[1] o ddarpariaeth i ddatblygu eu medrau personol yn y Gymraeg mewn rhaglenni Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR). Mae llawer o bartneriaethau yn amserlennu sesiynau rheolaidd i helpu myfyrwyr wella eu medrau Cymraeg tra yn y brifysgol. Fodd bynnag, mae'r

[1] Mae canllawiau'r canllawiau achredu newydd yn cynyddu'r disgwyliad i 35 awr. Bydd rhaglenni sydd yn cael eu hail-achredu neu eu achredu o'r newydd wedi Medi 2024 yn gweithredu'r disgwyliad hyn.

ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg myfyrwyr yn amrywio yn y rhaglenni a addysgir. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig yn amrywio ar draws cyfnod eu gradd neu mae disgwyl i fyfyrwyr lywio eu dysgu ar gyfer datblygu eu medrau Cymraeg yn annibynnol. Yn yr achosion hyn, nid yw myfyrwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ymarfer eu medrau Cymraeg yn rheolaidd ac o ganlyniad gwnânt gynnydd mwy cyfyngedig yn eu medrau personol. Yn ogystal maent yn ffocysu ar geisio bodloni'r safon broffesiynol SAC am y Gymraeg yn hytrach na datblygu arferion addysgeg i sicrhau cynnydd ym medrau Cymraeg eu disgyblion.

Yn aml, arbenigwyr pynciol y Gymraeg sy'n gyfrifol am addysgu'r sesiynau Cymraeg er mae amrywiaethau ym mhrofiad tiwtoriaid o addysgu Cymraeg i oedolion. Mae'r sesiynau yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr feithrin eu hyder ac ymarfer eu medrau ieithyddol personol. Mae myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwerthfawrogi'r cyfle i ail-ymweld gydag agweddau ar ramadeg nad ydynt wedi eu hastudio ers bod yn yr ysgol mewn sesiynau gloywi iaith. Er enghraifft, sut i ddefnyddio amser y ferf yn gywir neu sut i ddefnyddio ffurfiau cwmpasog a chryno berfau. Mae myfyrwyr aseswyd bod ganddynt ddim medrau Cymraeg, medrau lefel mynediad neu lefel sylfaen ac sydd yn dilyn rhaglenni cyfrwng Saesneg yn mwynhau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith er enghraifft, ymarfer ymadroddion a gorchmynion Cymraeg.

Mae myfyrwyr yn nodi bod eu dealltwriaeth o bwysigrwydd a gwerth y sesiynau iaith yn cynyddu dros gyfnod eu rhaglen, yn arbennig ble mae disgwyliadau clir yn ysgolion y bartneriaeth ynglŷn â sut dylai staff fodelu a datblygu medrau ieithyddol disgyblion. Ble nad yw myfyrwyr yn gweld cymaint o werth i'r sesiynau, maent yn gyffredinol neu syml iawn ac nid ydynt yn bodloni pwrpas y rhaglen, sef paratoi myfyrwyr i addysgu mewn ysgolion.

**Yn ein holiadur i fyfyrwyr addysg gychwynnol athrawon:**

Cytunodd **79%** o fyfyrwyr bod y sesiynau addysgwyd yn y brifysgol wedi eu helpu i ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Cytunodd **78%** o fyfyrwyr eu bod yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio eu medrau Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth.

Cytunodd **72%** eu bod yn hyderus bod yr hyfforddiant wedi eu helpu i ddatblygu addysgeg sy'n cefnogi medrau Cymraeg disgyblion.

(Ymatebodd 108 o fyfyrwyr i holiadur)

Er bod llawer o fyfyrwyr yn mynegi barn gadarnhaol am y ddarpariaeth i ddatblygu eu medrau Cymraeg, maent yn llai clir am y disgwyliadau parthed datblygu medrau Cymraeg eu disgyblion wrth addysgu. Yn aml, mewn ysgolion cyfrwng-Saesneg maent yn meddwl bod cyfarch a defnyddio gorchmynion syml yn y Gymraeg yn ddigonol. Mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg nid ydynt bob amser yn rhoi digon o bwyslais ar ddatblygu medrau ieithyddol y disgyblion wrth ddysgu pynciau ar draws y cwricwlwm, ac yn arbennig felly yn y sector uwchradd.

Ymatebodd cant a chwech o athrawon newydd gymhwyso i'n holiadur. Cytunodd chwedeg un y cant bod y sesiynau addysgwyd yn y brifysgol wedi eu helpu i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Gall hyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaethpwyd gan bartneriaethau i gryfhau eu darpariaeth eleni ynghyd ag effaith y pandemig ar brofiad myfyrwyr rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yn 2021-2022. Er enghraifft, darparwyd mwy o sesiynau medrau Cymraeg yn rhithiol ble roedd llai o gyfle i ryngweithio gyda chyd-fyfyrwyr a thiwtoriaid.

Mae bron iawn pob partneriaeth yn sicrhau bod myfyrwyr yn cwblhau awdit medrau Cymraeg ar ddechrau'r rhaglen ac ar y cyfan, yn grwpio myfyrwyr yn addas yn ôl eu hanghenion. Defnyddir y Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg i gefnogi myfyrwyr i hunan asesu beth i'w eu gallu ieithyddol ac i nodi cynnydd yn ystod y rhaglenni. Mae ychydig bartneriaethau yn creu grwpiau arbennig ar gyfer myfyrwyr sydd yn gallu'r Gymraeg ond yn ddihyder er mwyn cynnig cymorth personol i ddatblygu eu cymhwysedd yn y Gymraeg a'u hannog i ystyried addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Partneriaeth AGA Caerdydd: Grwpio myfyrwyr i ddatblygu hyder a chymhwysedd athrawon cyfrwng Cymraeg**

Mae'r bartneriaeth yn gosod myfyrwyr mewn grwpiau iaith gwahaniaethol gan gynnwys grŵp 'Pontio' a 'Gloywi'. Mae tiwtoriaid y Gymraeg yn targedu siaradwyr Cymraeg ar gyfer y grwpiau hyn er mwyn ceisio cynyddu'r niferoedd o fyfyrwyr sydd yn dewis llwybr cyfrwng Cymraeg. Yn flynyddol, mae carfan fach o fyfyrwyr TAR sy'n siaradwyr Cymraeg yn dewis llwybr cyfrwng Saesneg. Gosodir hwy mewn grŵp 'Pontio' er mwyn rhoi cefnogaeth benodol iddynt ddatblygu eu hyder a'u cymhwysedd Cymraeg. Mae ffocws ar sgwrsio a datblygu rhuglder llafar fel cyfle i fyfyrwyr ailafael yn eu medrau iaith yn dilyn cyfnod o astudio trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r sesiynau hefyd yn cynnwys cyfleoedd i gyfarfod gyda staff ysgolion sydd wedi dysgu Cymraeg ac sydd bellach yn gweithio yn y sector Cymraeg. O ganlyniad, mae llawer o fyfyrwyr 'Pontio' yn dewis profiad cyfoethogi cyfrwng Cymraeg, sef profiad tair wythnos ar ddiwedd y rhaglen gan ddatblygu eu hyder a'u defnydd o'r Gymraeg gyda disgyblion. Golyga hyn bod myfyrwyr yn gynyddol hyderus i ystyried gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**Ysgol Gynradd Dolau**

Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol ddwyieithog sy'n darparu cyfle datblygu Cymraeg unigryw i fyfyrwyr AGA ar leoliad yn yr ysgol. Mae staff yn yr adrannau cyfrwng Saesneg a Chymraeg wedi ymrwymo i ddarparu cwricwlwm cynhwysol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn treiddio'n naturiol ar draws yr ysgol. Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr AGA yn cael profiad o ansawdd uchel, maent yn dechrau lleoliadau ymarfer clinigol gyda gweithdy cychwynnol sy'n rhannu disgwyliadau ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd y Gymraeg yn Nolau. Mae'r gweithdy hwn yn darparu cefnogaeth ac yn helpu i gryfhau dealltwriaeth myfyrwyr o'r disgwyliadau. Mae gorchmynion a phatrymau brawddegau yn cael eu harchwilio gan fyfyrwyr cyn eu trosglwyddo i waith yn y dosbarthiadau. Mae myfyrwyr yn defnyddio'r Fframwaith Cymhwysedd Iaith, i ddatblygu hyder, arbenigedd ac agweddau cadarnhaol, ac i dynnu sylw at feysydd i'w datblygu. Cynllunnir gweithdai ychwanegol penodol pob

pythefnos i wella lefelau hyder myfyrwyr ac i dargedu unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen. Mae'r gefnogaeth gynhwysfawr hon yn cael effaith uniongyrchol ar hyder myfyrwyr, a'u gallu i integreiddio'r Gymraeg i'w trefn ddyddiol.

Yn y sefydliadau hynny ble mae'r nifer y myfyrwyr yn fach, mae'r grwpiau yn cynnwys ystod o anghenion ieithyddol a gall diwallu'r anghenion amrywiol fod yn heriol. Mewn ychydig enghreifftiau, mae myfyrwyr yn cael eu grwpio yn ôl pa gyfrwng iaith a ddewiswyd ganddynt. Golyga hyn bod ychydig o fyfyrwyr sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl ond sydd wedi dewis dilyn rhaglen cyfrwng Saesneg, mewn grwpiau ble nad yw'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer eu gallu ieithyddol.

Ble mae'r ddarpariaeth yn gryf iawn, gwna myfyrwyr gynnydd da. Mewn ychydig achosion, defnyddir y sesiynau yn gelfydd i ddatblygu medrau personol y myfyrwyr law yn llaw â datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o fethodoleg caffael iaith. Yn yr achosion hyn gall y myfyrwyr gymhwyso'r hyn a ddysgwyd am gaffael iaith yn bwrpasol pan ar brofiad ysgol. Yn ogystal, dylunnir y sesiynau yn ofalus i ddatblygu hyder myfyrwyr yn eu medrau iaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu haddysgu pan ar brofiad ysgol ac ar y cynnydd a wna disgyblion yn eu medrau Cymraeg. Ble nad yw'r sesiynau medrau iaith mor ddefnyddiol, maent yn canolbwyntio ar agweddau rhy sylfaenol neu'n gyffredinol iawn sydd ddim pob amser yn berthnasol i'r ystafell ddosbarth. Nid yw'r myfyrwyr yn deall y cysylltiadau gyda'u hastudiaethau pwnc neu gyfnod/oedran dewisol ac nid ydynt yn gallu perthnasu'r sesiynau i'w profiadau ymarferol yn yr ysgol. Mae'r diagram isod yn amlinellu nodweddion arfer effeithiol.

**Ble mae ymarferwyr yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol maent yn:**

| | | |
|---|---|---|
| creu amgylchedd dysgu ble mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel | defnyddio'r Gymraeg yn aml a chyson | cyflwyno a modelu iaith yn gywir |
| goslefu, ailadrodd ac ystumio'n rheolaidd | defnyddio ciwiau gweledol yn effeithiol | mapio geirfa a phatrymau cystrawennol |
| cynllunio ar gyfer dilyniant a pharhad | cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau gwahanol | blaenoriaethu medrau gwrando a siarad, yna darllen ac ysgrifennu |

(Addaswyd o Adroddiad Thematig Addysg Drochi Cymraeg Estyn 2022)

Mae mwyafrif y partneriaethau yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant, hunaniaeth a hanes Cymru ynghyd â manteision dwyieithrwydd fel rhan o'r sesiynau medrau iaith a'u darpariaeth ehangach. Er enghraifft, maent yn cynnal digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfod a thwmpath neu yn trefnu cyfleoedd i fyfyrwyr fynychu digwyddiadau fel Tafŵyl neu ymweld â Glan-llyn. Mewn ychydig enghreifftiau mae partneriaethau yn cynnal digwyddiadau i ddathlu cynnydd myfyrwyr yn y Gymraeg. Er enghraifft, digwyddiad dathlu gyda Dafydd Iwan ym mhartneriaeth AGA Caerdydd. Mae myfyrwyr cyfrwng Saesneg a

chyfrwng Cymraeg yn gwerthfawrogi cyfleoedd i gydweithio i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Teimlant fod hyn yn cael effaith cadarnhaol ar eu cynnydd yn yr iaith.

**Ymweliad Prifysgol De Cymru â Sain Ffagan: Datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a hunaniaeth Cymru a'r Gymraeg**

Mae Prifysgol De Cymru yn trefnu cyfle i fyfyrwyr ymweld ag  Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.  Yn ystod yr ymweliad hwn mae cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru tra hefyd yn defnyddio eu medrau Cymraeg.  Gofynnir i fyfyrwyr gynhyrchu adnodd i ddweud hanes yr adeiladau amrywiol gan ddefnyddio cymaint o Gymraeg a phosib.

Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i fyfyrwyr ddefnyddio'r iaith i bwrpas gan adnabod ei harwyddocâd ehangach. O ganlyniad, mae myfyrwyr yn datblygu eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Maent hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn Cwricwlwm i Gymru. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu gwaith cynllunio a'u hagweddau at y Gymraeg.

## Datblygu'r Gymraeg yng nghyd-destun pwnc neu gyfnod

Mae pob partneriaeth yn darparu sesiynau penodol ar gyfer astudiaeth pwnc neu gyfnod/oedran dewisol fel rhan o ddarpariaeth y sesiynau a addysgir. Yn aml, ychydig o gysylltiad sydd rhwng yr hyn a gyflwynir mewn sesiynau i ddatblygu medrau Cymraeg a'r hyn addysgir mewn sesiynau pwnc neu gyfnod. O ganlyniad, nid yw myfyrwyr yn gwneud cysylltiadau digon cadarn rhwng yr hyn maent wedi dysgu mewn sesiynau Cymraeg a sut i gymhwyso hyn pan ar brofiad ysgol. Er enghraifft, nid ydynt yn deall sut i ddefnyddio strategaethau a fodelwyd gan eu tiwtoriaid wrth helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Mae'r nifer o sesiynau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhaglenni BA a TAR Cynradd yn amrywio. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn cynnig cyfran o'r rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhaglenni cynradd yn cynnwys sesiynau am sut mae plant yn datblygu'n ieithyddol ac yn yr enghreifftiau gorau gwneir cysylltiadau gyda sut mae disgyblion yn datblygu yn ddwyieithog ac amlieithog. Mae myfyrwyr yn manteisio ar y cyfleoedd hyn i drafod datblygiad ieithyddol disgyblion a sut i ymgorffori addysgeg sydd yn ffocysu ar ddatblygu'r Gymraeg yn eu gwaith cynllunio ac addysgu. Mewn sesiynau pwnc neu gyfnod a addysgir trwy gyfrwng y Saesneg dim ond mewn ychydig achosion mae tiwtoriaid yn modelu sut i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun ysgol cyfrwng Saesneg yn effeithiol.

Mae argaeledd sesiynau pynciol uwchradd yn y Gymraeg yn aml yn dibynnu ar y nifer o fyfyrwyr sydd yn gallu'r Gymraeg ac os yw'r tiwtor pwnc yn gallu'r Gymraeg. Yn aml, addysgir y sesiynau trwy gyfrwng y Saesneg. Yn yr achosion hyn, mae ychydig o gyfleoedd i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg drafod yn yr iaith a defnyddio adnoddau a gyfieithwyd. Yn gyffredinol nid oes digon o gyfleoedd i fyfyrwyr uwchradd drafod gwybodaeth benodol i'w pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, er bod sesiynau rhaglenni uwchradd yn trafod datblygu medrau llythrennedd disgyblion, yn aml nid ydynt yn rhoi sylw penodol i fethodoleg caffael a datblygu'r Gymraeg mewn cyd-destun pynciol. Nid yw myfyrwyr yn derbyn digon o gyfleoedd i gynllunio ar gyfer

datblygiad iaith disgyblion. Yn ogystal, noda myfyrwyr bod argaeledd adnoddau Saesneg a chyfrwng y darlithoedd yn eu harwain i feddwl bod cwblhau aseiniadau yn y Saesneg yn fwy hwylus. O ganlyniad, nid ydynt yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu medrau iaith yn ystod eu rhaglenni ac nid ydynt yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i gefnogi anghenion Cymraeg disgyblion.

Dim ond mewn ychydig iawn o achosion mae partneriaethau AGA yn cydweithio i alluogi myfyrwyr i drafod pynciau gyda'u cyfoedion o wahanol sefydliadau. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr amrywiaethau mewn ymagweddau at gynllunio rhaglenni ac amserlenni myfyrwyr. Mae'r gystadleuaeth i ddenu athrawon dan hyfforddiant yn rhwystr allweddol ychwanegol i gydweithio.

Mewn ychydig o bartneriaethau mae ambell ddarlith ar gyfer holl fyfyrwyr y rhaglen yn cael ei darparu yn y Gymraeg. Yn yr achosion hyn mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Saesneg. Creda myfyrwyr bod hyn yn dangos pwysigrwydd yr iaith ac yn cynyddu ei statws o fewn y rhaglen.

## Darpariaeth y rhaglenni a addysgir: nodweddion arfer effeithiol

Mae tiwtoriaid yn sicrhau bod gan fyfyrwyr ddealltwriaeth gadarn o bwrpas y sesiynau gan gynnwys sut i ddefnyddio'r hyn maent wedi ddysgu pan ar brofiad mewn ysgol.

Mae'r sesiynau yn sicrhau bod myfyrwyr yn deall pwysigrwydd datblygu'r Gymraeg a'u rôl hwy wrth hyrwyddo disgyblion i ddefnyddio a datblygu'r iaith. Gall hyn gynnwys sicrhau dealltwriaeth o hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru a bod y Gymraeg yn berchen i bawb.

Mae cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu hyder trwy gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau amrywiol tu hwnt i'r ddarlithfa.

Mae'r sesiynau Cymraeg yn ymateb yn bwrpasol i anghenion iaith penodol myfyrwyr gan ystyried sut byddant yn datblygu'r agwedd hon pan ar brofiad mewn ysgol. Er enghraifft, sut i ddefnyddio berfau cwmpasog ac amser y ferf yn gywir wrth addysgu o fewn pwnc / cyfnod neu roi sylw i sut i ynganu geiriau ac ymadroddion yn gywir.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio methodoleg caffael a datblygu iaith yn fedrus i ddatblygu medrau Cymraeg y myfyrwyr ynghyd a'u dealltwriaeth o sut i ddefnyddio addysgeg effeithiol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Yn yr ychydig enghreifftiau mwyaf clodwiw, gwelir effaith hyn ar addysgu'r myfyrwyr a safon cyflawniad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

Mae myfyrwyr yn derbyn sesiynau iaith rheolaidd i sicrhau cyfleoedd i ymarfer eu medrau iaith a derbyn adborth neu gefnogaeth i ddatblygu eu medrau.

Mae'r sesiynau yn cael eu gwahaniaethu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion yr holl fyfyrwyr.

Mae darpariaeth gynyddol ar gyfer y Gymraeg mewn sesiynau pwnc neu gyfnod. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod myfyrwyr Cymraeg yn gallu cyfrannu a chwblhau eu gwaith yn yr iaith.

Mae sesiynau pwnc neu gyfnod yn cynnwys cyfeiriadau penodol at sut i ddatblygu medrau ieithyddol disgyblion gan gynnwys eu medrau Cymraeg. Mae tiwtoriaid yn modelu'n effeithiol sut i ddefnyddio methodoleg caffael a datblygu'r Gymraeg.

### Cysylltu theori ac arfer

Yn y rhan fwyaf o bartneriaethau mae ysgolion arweiniol yn darparu sesiynau i helpu myfyrwyr wneud cysylltiadau rhwng yr hyn maent yn dysgu yn y brifysgol ac arferion mewn ysgolion. Mewn llawer o bartneriaethau nid oes cyfleoedd penodol i ystyried y Gymraeg fel rhan o'r sesiynau hyn. Golyga hyn bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r

Gymraeg yn cael ei ystyried fel agwedd ynysig ac nid oes cyfleoedd i fyfyrwyr drafod sut i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg yn eu dosbarthiadau neu bynciau gyda mentoriaid arweiniol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r camsyniad mai bodloni safon broffesiynol yw unig ddiben datblygu'r Gymraeg.

Mae ychydig o bartneriaethau yn datblygu'r cyswllt rhwng sesiynau'r brifysgol i ddatblygu medrau Cymraeg myfyrwyr, diwrnodau theori ac arfer mewn ysgolion arweiniol a phrofiad myfyrwyr pan ar brofiad mewn ysgolion. Yn yr achosion hyn, mae partneriaethau wedi dechrau sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr wneud cysylltiadau yn eu dysgu. O ganlyniad mae gan fyfyrwyr ddealltwriaeth fwy cadarn o bwysigrwydd datblygu eu medrau ac addysgeg Cymraeg.

**Partneriaeth CaBan: Cysylltu theori ac arfer trwy rôl y mentor iaith**

Mae strwythur rhaglen AGA CaBaN yn cynnwys rôl mentor iaith ymhob ysgol arweiniol. Mae'r Mentoriaid Iaith Arweiniol hyn yn cyfrannu at gynllun datblygu a blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer y Gymraeg y bartneriaeth.

Mae'r mentoriaid iaith yn gweithio'n agos gyda thiwtor y brifysgol er mwyn dylunio a darparu pum sesiwn ysgol arweiniol am y Gymraeg. Mae'r sesiynau yn trafod cyd-destun y Gymraeg gan gynnwys cyd-destun yr ysgol arweiniol, datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o bwysigrwydd yr iaith ynghyd a sut gellir defnyddio methodoleg addysgu'r Gymraeg gyda disgyblion. Mae cyfle i fyfyrwyr drafod strategaethau megis Siarter Iaith ac 'Ein Llais Ni' i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion ynghyd a thrafod addysgeg datblygu iaith. Yn ogystal, mae'r mentoriaid iaith yn trefnu cyfleoedd i fyfyrwyr arsylwi ar fethodoleg datblygu iaith wrth ymweld â dosbarthiadau a chyfrannu at weithgareddau.

Mae Ysgol yr Hendre, Caernarfon, Ysgol Cae Top, Bangor  ac Ysgol Alun, yr Wyddgrug yn ysgolion arweiniol ar gyfer CaBan.

**Ysgol yr Hendre**

Mae Ysgol yr Hendre yn ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaernarfon. Mae'r mentor iaith yn plethu'r sesiynau ysgol arweiniol i drafod strategaethau datblygu iaith gyda chyfleoedd i ymweld â dosbarthiadau'r ysgol yn gelfydd. Mae myfyrwyr yn arsylwi strategaethau caffael a datblygu iaith ar waith mewn dosbarthiadau cyn cael cyfle i weithio gyda grwpiau bach o ddisgyblion i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r strategaethau hyn. Cefnogir hyn trwy drafodaethau gydag athrawon dosbarth a'r mentor iaith. Golyga hyn bod myfyrwyr yn adeiladu dealltwriaeth gadarn o sut i gynllunio a defnyddio addysgeg caffael iaith.

Yn ogystal, mae myfyrwyr ac sydd ar brofiad ysgol yn derbyn cyfnodau paratoi gyda'u mentoriaid ac athrawon dosbarth eraill er mwyn hwyluso cyd-gynllunio ar gyfer datblygu medrau ieithyddol disgyblion. Mae'r ffocws penodol hwn ar addysgeg y Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar addysgeg myfyrwyr a chynnydd disgyblion yn eu medrau llafaredd yn y Gymraeg.

Mae'r mentor iaith yn gweithio yn agos gyda mentoriaid dosbarth ysgolion partner y dalgylch i sicrhau cefnogaeth i'r myfyrwyr. Mae'n arwain prosiect 'Ein Llais Ni' gan

gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i athrawon a myfyrwyr.

**Ysgol Cae Top**

Mae Ysgol Cae Top yn ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mangor. Mae'r mentoriaid yn darparu sesiynau penodol i ddatblygu addysgeg a medrau cynllunio llythrennedd Cymraeg eu myfyrwyr BA. Mae'r ysgol yn cyflwyno ffrâm gynllunio weledol er mwyn torri'r broses gynllunio yn gamau clir:

- Darllen testun
- Cyflwyno model o'r genre bydd disgyblion yn ysgrifennu gan amlygu nodweddion y genre
- Cynllunio gemau iaith i adeiladu geirfa a gramadeg
- Cynllunio tasgau i gymhwyso geirfa, gramadeg a strwythur
- Cynllunio cyfleoedd i chwarae rôl er mwyn parhau i adeiladu geirfa a phatrymau brawddegau
- Cyd-ysgrifennu model dosbarth cyfan
- Cyfle i ddisgyblion ysgrifennu yn unigol

Mae cyfleoedd i fyfyrwyr drafod addysgeg wrth gynllunio, arsylwi'r broses ar waith mewn dosbarthiadau a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd i'w hymarfer eu hunain yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn rhoi pecyn o adnoddau am hanes Cymru i'w myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes a hunaniaeth Cymru wrth gynllunio'u gwersi.

**Ysgol Alun**

Mae Ysgol Alun yn ysgol cyfrwng Saesneg yn yr Wyddgrug. Yma, mae'r mentor iaith yn darparu sesiynau pwrpasol i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg ynghyd a'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith gyda disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu adnoddau i gefnogi myfyrwyr sydd yn newydd i'r iaith i ynganu geiriau ac ymadroddion yn gywir trwy recordiadau llais. Mae'r ysgol yn defnyddio strategaeth '10 Cam Cynnydd' CaBan er mwyn datblygu defnydd myfyrwyr o'r Gymraeg. Mae'r camau cynnydd hyn yn cynnwys strategaethau sylfaenol fel man cychwyn, cyn mynd ymlaen i nodi strategaethau cwestiynu a chynnal sgwrs ddysgu yn y Gymraeg fel penllanw'r daith iaith ddatblygol ar gyfer myfyrwyr. Golyga hyn bod gan fyfyrwyr gwell dealltwriaeth o'r disgwyliadau parthed datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod y rhaglen.

## Cefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg wrth gael profiad mewn ysgol

Yn gyffredinol, mae gan ysgolion ddealltwriaeth addas o ddisgwyliadau eu partneriaeth addysg gychwynnol athrawon. Mae gan ysgolion arweiniol ddealltwriaeth fwy cadarn oherwydd yn aml, maent wedi cyfrannu at ddatblygu'r rhaglenni, yn aelodau o bwyllgorau'r bartneriaeth ac yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'u cydweithwyr yn y brifysgol. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth glir a chyson o'r disgwyliadau parthed datblygu'r Gymraeg ar draws y partneriaethau. Mae amrywiaethau yn y ddealltwriaeth mewn ysgolion arweiniol ac ysgolion partneriaeth ehangach, sectorau (cynradd ac uwchradd) a chyfrwng iaith y profiad ysgol. Mae'r amrywiaeth hwn yn amlwg iawn yn yr ysgolion hynny ble nad yw arweinwyr ysgolion

yn blaenoriaethu'r Gymraeg ac nid oes strategaeth i'w datblygu ar draws yr ysgol. Yn ogystal, gall amrywiaethau fodoli o fewn ysgolion yn enwedig ble mae'r gefnogaeth yn dibynnu ar ddiddordeb ac awydd y mentor i drafod y Gymraeg. Golyga hyn bod profiadau myfyrwyr o'r Gymraeg wrth gael profiad mewn ysgol yn amrywio'n fawr.

Yn ein holiadur ar gyfer **myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon**, cytunodd **69%** o fyfyrwyr eu bod wedi cael cefnogaeth i ddatblygu eu medrau Cymraeg tra ar brofiad ysgol.

(ymatebodd 108 o fyfyrwyr i'n harolwg)

Yn ein holiadur ar gyfer **athrawon newydd gymhwyso**, dywedodd **58%** eu bod wedi cael cefnogaeth i ddatblygu eu medrau Cymraeg tra ar brofiad ysgol. Cytunodd llai na hanner eu bod wedi derbyn cefnogaeth ar gyfer y Gymraeg mewn sesiynau ysgol arweiniol.

(Ymatebodd 106 o ANG i holiadur)

Yn yr ysgolion arweiniol a phartneriaeth ehangach hynny ble mae enghreifftiau o gefnogaeth gref i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg personol a ble mae hyn yn arwain at ddatblygiad ym medrau disgyblion, mae'r Gymraeg yn cael lle amlwg iawn yng ngweledigaeth a chynllun gwella'r ysgol.

**Y Brifysgol Agored: Ysgol Gynradd All Saints, Gresffordd Wrecsam**

Mae Ysgol Gynradd All Saints yn ysgol cyfrwng Saesneg o fewn Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored. Mae arweinwyr a staff yr ysgol yn angerddol am hybu ymdeimlad o hunaniaeth, gan gynnwys iaith a diwylliant Cymraeg, ymysg disgyblion. Mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac mae staff yn ymrwymo i ddatblygu medrau disgyblion yn yr iaith. Mae'r myfyriwr ar brofiad yn yr ysgol yn rhan o ddysgu proffesiynol a gwaith cynllunio bwriadus ar gyfer y Gymraeg. Mae'n gweithio gyda staff yr ysgol i ddatblygu a chynhyrchu adnoddau ar gyfer gwersi. Mae trafodaethau proffesiynol gyda staff yn helpu'r myfyriwr i wneud cysylltiadau rhwng theori ac arfer. Golyga hyn ei bod yn gallu cyfrannu'n feddylgar i sesiynau gyda thiwtoriaid y brifysgol i ddatblygu ymhellach ei dealltwriaeth o addysgeg.

O ganlyniad, mae gan y myfyriwr ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd datblygu'r Gymraeg ac mae'n datblygu addysgeg i gefnogi defnydd a datblygiad ieithyddol y disgyblion.

Ar draws y partneriaethau, mae ychydig o enghreifftiau o arfer dda ble mae mentoriaid dosbarth/pwnc yn buddsoddi amser sylweddol i gefnogi a helpu eu myfyrwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg personol a chynyddu eu hyder. Mae'r mentoriaid hyn yn treulio amser yn trafod a meithrin datblygiad iaith myfyrwyr gan ddarparu adnoddau ychwanegol i'w cefnogi. Yn yr achosion gorau, maent yn rhoi sylw cadarn i ddatblygu addysgeg caffael a datblygu iaith myfyrwyr fel bod eu harferion yn cael effaith ar gynnydd disgyblion yn y Gymraeg. Yn aml mae'r mentoriaid hyn yn modelu ymarfer addysgu yn effeithiol iawn ac yn defnyddio strategaethau annog a mentora mewn ffordd sensitif i lywio ymarfer y myfyrwyr. Maent yn sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau addysgu Cymraeg yn y dosbarth ac mewn gweithgareddau ehangach. Er enghraifft wrth arwain gemau

buarth yn ystod amseroedd chwarae. Mae enghreifftiau ble mae mentoriaid yn gosod targedau effeithiol sydd yn ffocysu nid yn unig ar ddatblygu medrau Cymraeg personol y myfyrwyr ond ar wella addysgu ac o ganlyniad, dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd y mentora ar draws y partneriaethau.

**Mae arweinwyr ysgol effeithiol yn sicrhau cefnogaeth eang i ddatblygu'r Gymraeg. Maent yn:**

- blaenoriaethu datblygu'r Gymraeg fel rhan o weledigaeth a chynllun datblygu'r ysgol
- cynllunio strategol bwriadus sy'n ystyried beth fydd effaith unrhyw strategaeth ar gynnydd disgyblion yn y Gymraeg
- sicrhau bod staff yr ysgol yn rhoi pwyslais bwriadus ar fodelu patrymau iaith a defnyddio methodoleg caffael a datblygu iaith
- cyfathrebu'n glir eu disgwyliadau uchel am sut dylai staff ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg
- sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg ac addysgeg staff i ddatblygu'r iaith
- yn sicrhau bod mentoriaid dosbarth/pwnc yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol gan fentora ac annog mewn dull gadarnhaol ac adeiladol
- Rhoi ffocws ar addysgu o'r radd flaenaf gan gynnwys addysgeg caffael a datblygu'r Gymraeg
- sicrhau bod myfyrwyr yn deall y weledigaeth gan ddefnyddio sesiynau anwytho i gyflwyno'r dysgu proffesiynol angenrheidiol; sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr gymhwyso hyn mewn gwersi
- gwerthuso gan ystyried effaith yr addysgu ar fedrau Cymraeg disgyblion

Mewn tua hanner y partneriaethau mae rôl benodol ar gyfer mentor iaith sy'n cefnogi myfyrwyr i ddatblygu'r Gymraeg. Mae swyddogaethau'r mentoriaid iaith yn amrywio ar draws y partneriaethau. Mewn rhai achosion maent yn gyfrifol am wirio cywirdeb ieithyddol deunyddiau ac adnoddau a gynhyrchir gan fyfyrwyr. Maent yn arsylwi myfyrwyr er mwyn trafod a gosod targedau iaith. Mewn achosion eraill, maent yn gyfrifol am lywio sesiynau mentor iaith yr ysgol arweiniol a threfnu cyfleoedd i fyfyrwyr gymhwyso'r hyn maent wedi dysgu mewn dosbarthiadau. Mewn ychydig o ysgolion, mae ganddynt gyfrifoldeb arweiniol ehangach am ddatblygu'r Gymraeg gan gyfrannu at strategaeth dysgu broffesiynol yr ysgol. Yn yr achosion hyn maent yn helpu gosod cyfeiriad strategol yr ysgol tuag at ddatblygu'r Gymraeg. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiadau'r myfyrwyr gan eu helpu i wneud cysylltiad rhwng darpariaeth y bartneriaeth a rhaglenni dysgu proffesiynol ehangach. Er enghraifft, mae mentor iaith Ysgol yr Hendre yn cyfrannu at raglen 'Ein Llais Ni' trwy gydweithio gyda GwE a CaBan.

**Ble mae’r mentor yn cefnogi'r Gymraeg yn effeithiol mae’n:**

- arwain mentoriaid dosbarth/pwnc gan osod disgwyliadau clir ar gyfer cefnogi'r Gymraeg gyda myfyrwyr
- darparu cefnogaeth i gynyddu hyder myfyrwyr ynghyd a'u hangerdd tuag at y Gymraeg
- sicrhau dysgu proffesiynol a chefnogaeth benodol i helpu myfyrwyr ymateb i'w targedau iaith
- cyfathrebu rheolaidd gydag arweinydd y Gymraeg yn y brifysgol er mwyn plethu darpariaeth yr ysgol a'r brifysgol
- gosod targedau pwrpasol sy'n ystyried effaith addysgu'r myfyrwyr ar brofiadau a chynnydd disgyblion
- rhoi ffocws clir ar ddatblygu medrau personol myfyrwyr ynghyd ag addysgeg iaith yng nghyd-destun eu pwnc/cyfnod.

Fodd bynnag, mae diffyg cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu addysgeg caffael iaith athrawon ynghyd a’u gallu i gefnogi disgyblion i wella eu medrau Cymraeg. Nid yw llawer o staff sy’n addysgu ar draws meysydd uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn deall addysgeg caffael iaith yn ddigon da, ac felly nid ydynt yn modelu arfer nac yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu harferion yn ddigon effeithiol. Mae prinder cynnig dysgu proffesiynol penodol ar gyfer pynciau ar draws y cwricwlwm ac ni roddir sylw i ddatblygu’r Gymraeg o fewn y ddarpariaeth hon. Yn aml, mae dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar ddatblygu’r Gymraeg fel agwedd ynysig ac nid yw yn ffocysu yn ddigon miniog ar addysgeg i gefnogi datblygu medrau disgyblion yn y Gymraeg.

Yn y rhan fwyaf o bartneriaethau, mae disgwyl i fyfyrwyr gwblhau tasgau penodol i ddangos eu cynnydd yn y Gymraeg yn erbyn Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg ac er mwyn bodloni’r safonau proffesiynol ar y Gymraeg. Yn aml, gofynnir i fyfyrwyr gynhyrchu portffolio o waith i ddangos eu cynnydd yn y maes hwn gan ddefnyddio tystiolaeth o’u gwaith yn y brifysgol ac mewn ysgolion. Mae gofynion y tasgau yn amrywio ar draws y partneriaethau a theimla myfyrwyr nad yw’r gofynion bob amser yn berthnasol i’w profiadau ysgol. Mae gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gymedroli ansawdd tasgau’r portffolios hyn yn werthfawr. Mae’r adroddiadau a gyflwynir i bartneriaethau yn ddefnyddiol i werthuso effeithiolrwydd y tasgau a osodir ac i dynnu sylw at agweddau i’w datblygu ymhellach, er enghraifft datblygu’r ffocws ar addysgeg caffael iaith.

Yn ogystal, mae datblygiad medrau Cymraeg myfyrwyr yn rhan o feini prawf ffurflenni arsylwi ac adroddiadau profiad ysgol partneriaethau. Mae’r ffurflenni hyn yn ffocysu ar y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gan olygu bod targedau

yn ffocysu ar fedrau personol myfyrwyr. O ganlyniad, nid oes ystyriaeth digon manwl o effaith addysgeg caffael a datblygu'r Gymraeg ar fedrau disgyblion.

Defnyddir y fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg i adnabod cymwyseddau athrawon newydd gymhwyso (ANG) ar ddechrau eu cyfnod ymsefydlu. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad amlwg rhwng yr hyfforddiant a gynigir mewn rhaglenni AGA a'r gefnogaeth ar gyfer ANG. Mae peth darpariaeth dysgu broffesiynol ar gael gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar gyfer Cymraeg fel pwnc neu fel rhan o faes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni i gefnogi medrau personol staff. Mewn ychydig enghreifftiau mae partneriaid gwella ysgolion yn cynnig rhaglenni penodol i drafod addysgu'r Gymraeg.  Fodd bynnag, nid oes cynnig cyson ar draws Cymru ac yn aml, nid yw'r ddarpariaeth yn trafod addysgeg effeithiol i gefnogi datblygiad medrau disgyblion. Yn gynyddol, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cydweithio gyda chefnogaeth eu hawdurdodau lleol a'u partneriaid gwella ysgolion i gynnig cefnogaeth i ddatblygu medrau Cymraeg ac addysgeg ANG. Mae hyn yn rhan o'u hymdrechion i recriwtio athrawon i bynciau prin a chynyddu hyder athrawon ifanc i addysgu yn y sector addysg Gymraeg.

Yn ein holiadur ar gyfer **athrawon newydd gymhwyso,** cytunodd llai na hanner **(46%)** eu bod wedi cael cefnogaeth i ddatblygu eu medrau Cymraeg ers cyflawni Statws Athro Cymwysedig.

Yn ogystal, anghytunodd **43%** eu bod wedi derbyn cefnogaeth i ddatblygu addysgeg i dargedu medrau Cymraeg disgyblion tra nododd **10%** nad oeddent yn gwybod os oeddent wedi derbyn cefnogaeth.

(Ymatebodd 106 ANG i'n holiadur)

Mae atodiad 1 yn cynnwys continwwm datblygiad yr iaith Gymraeg mewn partneriaethau addysg gychwynnol athrawon. Mae'r ffocws ar ysgolion yn adlewyrchu'r angen iddynt ddatblygu eu hymarfer ar gyfer cefnogi'r Gymraeg er mwyn sicrhau cefnogaeth gadarn ar gyfer myfyrwyr AGA.

## Hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

Yn aml, y brifysgol sydd yn arwain prosesau hunanwerthuso partneriaethau. Yn gyffredinol, nid yw partneriaethau yn gwerthuso'u darpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn ddigon miniog. Nid ydynt yn ystyried pob agwedd ar y ddarpariaeth a sut maent yn cyd-blethu. Golyga hyn nad ydynt yn ystyried yn ddigon manwl effaith y ddarpariaeth ar sut mae myfyrwyr yn defnyddio'r Gymraeg pan ar brofiad ysgol ac effaith hynny ar gynnydd disgyblion yn y Gymraeg. Nid ydynt felly yn adnabod yn benodol agweddau ar y ddarpariaeth sydd angen gwella, yn enwedig yn addysgeg y myfyrwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, mae mentoriaid yn cyfrannu at werthuso darpariaeth sesiynau ar y Gymraeg ac yn adnabod camau datblygu i'w rhannu gyda'u partneriaid yn y brifysgol. Ble mae hyn yn gweithio'n dda, mae mentoriaid iaith ac uwch fentoriaid yn adnabod agweddau penodol ar ddarpariaeth yr ysgol arweiniol i gefnogi'r Gymraeg. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar fireinio darpariaeth sesiynau theori ac arfer.

Mewn ychydig achosion, mae cyfleoedd i ysgolion gydweithio a rhannu arferion effeithiol am eu darpariaeth i gefnogi medrau Cymraeg myfyrwyr a'u staff ehangach. Er enghraifft, mae ysgolion arweiniol cyfrwng Saesneg yn cydweithio er mwyn darparu sesiynau mentor iaith ym mhartneriaeth CaBan a chysylltir mentoriaid iaith newydd gydag ymarferwr profiadol mewn ysgol arweiniol arall. Yn gyffredinol, nid oes digon o gyfleoedd i gydweithio a rhannu arferion da am y Gymraeg. Yn yr enghreifftiau gorau prin iawn, mae gan bartneriaid gwella ysgolion, gan gynnwys consortia rhanbarthol, rôl sylweddol mewn nodi ysgolion lle mae arfer effeithiol o ran addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, fel ei gilydd. Mae hyn yn galluogi partneriaethau i hwyluso rhannu arfer dda ar draws eu rhwydweithiau o ysgolion.

## Effaith y ddarpariaeth

Mae llawer o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau Cymraeg personol yn ystod eu rhaglenni AGA. Yn yr enghreifftiau hynny ble mae myfyrwyr yn gwneud cynnydd cryf, maent yn gwneud cysylltiadau effeithiol yn eu dysgu gan gymhwyso eu medrau personol ac addysgeg caffael a datblygu'r iaith yn eu dosbarthiadau. Mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar gynnydd disgyblion yn eu medrau Cymraeg.


Mewn mwyafrif o achosion ble mae myfyrwyr yn dilyn eu rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg, maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau i addysgu yn y Gymraeg. Mae'r myfyrwyr hyn yn deall sut i gynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu ochr yn ochr â gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau pynciol. Mae hyn yn fwy amlwg yn y rhaglenni cynradd. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae myfyrwyr yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer anghenion Cymraeg penodol, gan gynnwys anghenion hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg. Mae gan y myfyrwyr hyn wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o sut i gyflwyno a datblygu iaith, er enghraifft geirfa, strwythurau brawddeg, cystrawen ac idiomau newydd. Maent yn defnyddio addysgeg caffael iaith yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion lle mae cyfran uchel o ddisgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Ble mae hyn ar ei gryfaf, mae arweinwyr ysgol yn blaenoriaethu datblygiad addysgeg caffael iaith ymysg staff, mae mentora o ansawdd uchel ac mae cysylltiadau bwriadus yn cael eu gwneud rhwng y sesiynau arweinir gan y brifysgol ac arferion mewn ysgolion partneriaeth. Ble nad oes cynnydd cystal ymysg myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, nid ydynt yn fodelau iaith effeithiol ac nid ydynt yn talu sylw digonol i ddatblygu medrau iaith eu disgyblion.

Ble nad yw cynnydd myfyrwyr cystal, ychydig iawn o'r iaith a ddefnyddir mewn gwersi. Mae hyn wedi ei gyfyngu i orchmynion syml ac nid oes cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llafar Cymraeg. Ychydig o gyfeiriadau a geir yng ngwaith cynllunio myfyrwyr cyfrwng Saesneg at ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion.

## Recriwtio

Mae'r niferoedd sydd yn cwblhau rhaglenni addysg gychwynnol athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel, yn arbennig ar raglenni uwchradd ac maent yn bell o'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer recriwtio.

Nifer yr ymgeiswyr ar raglenni AGA uwchradd yn Nghymru, yn ôl pwnc a chyfrwng iaith 2021-2022




*Data o Fwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru ar addysg gychwynnol athrawon (Llywodraeth Cymru 2023c).*

Nid yw ychydig fyfyrwyr sydd yn gallu'r Gymraeg yn dewis cwblhau eu rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2021-2022 roedd hyn yn 7% o gyfanswm y myfyrwyr ar raglenni AGA. Maent yn teimlo yn ddihyder yn eu medrau Cymraeg yn dilyn cyfnod o astudio trwy gyfrwng y Saesneg ac nid ydynt yn llwyr ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i ddatblygu eu medrau yn ystod y rhaglen. Yn ogystal, nid ydynt yn ymwybodol o grant Iaith Athrawon Yfory Llywodraeth Cymru. Mae partneriaethau yn gynyddol ddatblygu eu harferion recriwtio er mwyn ceisio denu myfyrwyr i hyfforddi fel athrawon. Gan fod nifer o'r datblygiadau hyn yn ddiweddar iawn, nid oes tystiolaeth lawn o'u heffeithiolrwydd.

**Mae arferion recriwtio yn cynnwys:**

- hyrwyddo rhaglenni TAR mewn ffeiriau gyrfaoedd mewn prifysgolion
- cynnig cyfleoedd blasu rhaglenni TAR ar gyfer israddedigion prifysgol y bartneriaeth. Gall hyn gynnwys modiwl ar addysg o fewn pynciau arbenigol
- hyrwyddo a hysbysebu grantiau i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y broses gyfweld
- cydweithio gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- cynnig cefnogaeth benodol ar gyfer y Gymraeg er enghraifft cefnogaeth Academi Hywel Teifi ym Mhrifysgol Abertawe
- cynhyrchu podlediadau i drafod sut gall athrawon helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg er enghraifft, podlediad ‘AmFiliwn’ CaBan
- penodi swyddog marchnata penodol i hyrwyddo astudio trwy gyfrwng y Gymraeg
- cynnig bwrsari i raddedigion y brifysgol er mwyn eu hannog i barhau i astudio ar gyfer TAR
- hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi fel athro mewn rhaglenni dysgu proffesiynol cynorthwywyr dysgu
- digwyddiadau ar gyfer disgyblion chweched dosbarth er mwyn hyrwyddo addysg fel gyrfa gan gynnwys ffeiriau gyrfa mewn ysgolion arweiniol, digwyddiadau rhithiol a sesiynau marchnata mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
- hyrwyddo addysg fel gyrfa trwy waith marchnata yn Eisteddfod yr Urdd a’r Eisteddfod Genedlaethol
- cynnig cyfnodau profiad gwaith mewn ysgolion arweiniol ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth neu israddedigion
- defnyddio’r broses gyfweld i adnabod myfyrwyr sydd â’r gallu i gwblhau profiad trwy gyfrwng y Gymraeg; cynnig rhaglen bwrpasol i ddatblygu hyder a chynnydd medrau Cymraeg y myfyrwyr hyn

Mae'r diagram isod yn amlinellu nodweddion cefnogaeth effeithiol ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn partneriaethau AGA ac ysgolion.

**Cefnogaeth effeithiol i'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon a thu hwnt**

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o weledigaeth y bartneriaeth ac mae'n cael ei hystyried ymhob agwedd o'i gwaith.

Mae'r bartneriaeth yn hunan-werthuso'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg trwy ystyried effaith y gefnogaeth ar addysgeg y myfyrwyr a sut mae'r hynny yn effeithio ar brofiadau a chynnydd disgyblion.

Mae disgwyliadau clir ac uchel am y Gymraeg yn rhan o gytundeb ysgolion arweiniol ac ysgolion partneriaeth ehangach gan gynnwys sut byddant yn datblygu'r ddarpariaeth dros amser.

Mae arweinwyr yn gweithio'n strategol er mwyn sicrhau gwell cysondeb ym mhrofiadau myfyrwyr gan gynnwys lleihau amrywiant o fewn a rhwng ysgolion.

Mae arweinwyr yn ysgolion y bartneriaeth yn blaenoriaethu datblygiad y Gymraeg gan osod disgwyliadau clir am ei defnydd mewn gwersi ac thu hwnt i hynny.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i helpu staff ddatblygu eu medrau Cymraeg (staff y brifysgol a staff ysgolion).

Mae cynnig dysgu proffesiynol awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ystyried datblygu medrau Cymraeg ymarferwyr addysg ynghyd ag addysgeg caffael a datblygu'r Gymraeg.

Mae'r arweiniad ar gyfer safonau proffesiynol addysgu ac arweinyddiaeth yn pwysleisio datblygu medrau'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg a defnyddio addysgeg caffael a datblygu iaith i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg

Mae cefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso adeiladu ar eu medrau ac addysgeg Cymraeg.

Mae cyswllt clir rhwng y sesiynau i ddatblygu medrau Cymraeg myfyrwyr gyda sesiynau astudiaethau pwnc /cyfnod Rhoddir sylw penodol i ddatblygu dealltwriaeth o addysgeg caffael a datblygu iaith yng nghyd-destun y Gymraeg a sut gellir datblygu hyn yn ymarferol.

Mae cyswllt clir rhwng sesiynau'r brifysgol i ddatblygu medrau ac addysgeg myfyrwyr â darpariaeth yr ysgolion arweiniol a phrofiadau myfyrwyr mewn ysgolion partneriaeth.

Mae cyfleoedd i ysgolion gydweithio gan rannu arferion effeithiol o fewn y bartneriaeth a thu hwnt.

Cyfleoedd cyfoethogi fel bod pob myfyriwr yn cael blasu addysg cyfrwng Cymraeg trwy weithgareddau cefnogi cyfoed.

Mae cyfleoedd blasu addysg Gymraeg er mwyn annog myfyrwyr i ystyried addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cefnogaeth bwrpasol/dwys a chyfleoedd i fyfyrwyr bontio i addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r rhaglen.

# Atodiad 1

| Continwwm datblygu'r Gymraeg mewn partneriaethau addysg gychwynnol athrawon | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Dechrau'r daith** | **Gwneud cynnydd** | **Adeiladu momentwm** | **Cynnal safonau uchel** |
| **Y sefyllfa gyfredol Addysg Gychwynnol Athrawon** | • Mae sesiynau Cymraeg addysgir gan y brifysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau personol myfyrwyr yn y Gymraeg.<br>• Mae'r ddarpariaeth yn gyffredinol iawn ac yn aml nid yw yn ymateb yn ddigon penodol i anghenion y myfyrwyr nac yn trafod addysgeg caffael iaith.<br>• Mae datblygu medrau Cymraeg yn cael ei ystyried fel agwedd ynysig. Nid yw yn cael ei gysylltu gydag addysgeg pwnc neu gyfnod.<br>• Nid oes disgwyliadau clir am y gefnogaeth a gynigir i fyfyrwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg gan fentoriaid a staff tra mewn ysgolion.<br>• Ni ystyrir y gefnogaeth i'r Gymraeg yng ngweithgareddau sicrhau ansawdd ac hunan-werthuso'r bartneriaeth. | • Mae datblygu medrau Cymraeg yn cael ei adnabod fel blaenoriaeth o fewn y bartneriaeth. Mae cynllunio strategol cychwynnol ar gyfer y Gymraeg.<br>• Mae'r sesiynau Cymraeg yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau personol myfyrwyr yn y Gymraeg ynghyd â'u dealltwriaeth o addysgeg caffael iaith.<br>• Maent yn ymateb i anghenion ieithyddol a datblygiadol y myfyrwyr gyda ffocws ar ddatblygu methodoleg addysgu cadarn.<br>• Maent yn cael eu cynnal yn rheolaidd.<br>• Mae ychydig gysylltiadau rhwng y sesiynau Cymraeg a sesiynau ehangach (pwnc a chyfnod).<br>• Rhoddir sylw i'r Gymraeg yng nghanllawiau'r bartneriaeth gan gynnwys | • Mae gan y bartneriaeth weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Mae cynllunio strategol bwriadus ar gyfer yr agwedd hon.<br>• Mae'r sesiynau Cymraeg rheolaidd yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau personol myfyrwyr yn y Gymraeg ynghyd â'u dealltwriaeth o addysgeg caffael iaith. Maent yn ymateb i anghenion ieithyddol a datblygiadol y myfyrwyr gan ffocysu ar ddatblygu addysgwyr effeithiol.<br>• Mae cysylltiadau clir a bwriadus gyda sesiynau ehangach y ddarpariaeth a addysgir. Mae hyn yn cynnwys sesiynau theori ac arfer yn y brifysgol (pwnc neu gyfnod) a sesiynau ysgolion arweiniol a chefnogaeth ysgolion partneriaeth. | • Mae gan y bartneriaeth weledigaeth sefydledig ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Mae cynllunio strategol cyson a hynod effeithiol ar gyfer yr agwedd hon.<br>• Mae'r sesiynau Cymraeg yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau personol myfyrwyr yn y Gymraeg ynghyd â'u dealltwriaeth o addysgeg caffael iaith. Maent yn ymateb i anghenion ieithyddol a datblygiadol y myfyrwyr gan ffocysu ar ddatblygu addysgwyr effeithiol.<br>• Mae'r cysylltiadau clir a bwriadus gyda sesiynau ehangach y ddarpariaeth a addysgir. Mae hyn yn cynnwys sesiynau theori ac arfer yn y brifysgol (pwnc neu gyfnod) a sesiynau ysgolion arweiniol a chefnogaeth ysgolion partneriaeth.<br>• Mae cefnogi datblygiad Cymraeg myfyrwyr yn rhan annatod o waith y mentoriaid. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | amlinellu rôl mentoriaid ac ysgolion.<br>• Mae gweithgareddau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Yn aml mae hyn yn cynnwys holi barn myfyrwyr. | • Mae mentoriaid y bartneriaeth yn ystyried y Gymraeg yn eu gwaith gyda myfyrwyr ond nid oes cysondeb.<br>• Mae'r bartneriaeth yn defnyddio amrediad o weithgareddau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso er mwyn adnabod cryfderau ac agweddau i'w datblygu yn y ddarpariaeth Cymraeg. | Maent yn modelu arferion addysgeg effeithiol ac yn cefnogi myfyrwyr i gymhwyso eu dysgu am y Gymraeg.<br>• Mae rhaglen dysgu proffesiynol mentoriaid yn cynnwys sut i gefnogi medrau iaith ac addysgeg caffael iaith myfyrwyr yn effeithiol.<br>• Mae'r bartneriaeth yn defnyddio amrediad o weithgareddau sicrhau ansawdd a hunan-werthuso er mwyn adnabod cryfderau ac agweddau i'w datblygu yn y ddarpariaeth Cymraeg. Mae partneriaid yn ystyried effaith sesiynau medrau ac addysgeg ar arfer myfyrwyr ac ar gynnydd disgyblion. |
| **Y sefyllfa gyfredol Darpariaeth mewn ysgolion** | • Mae'r disgwyliadau ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn isel.<br>• Ychydig iawn o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg mewn gwersi heblaw am wersi penodol ar gyfer y pwnc.<br>• Ychydig iawn o ffocws ar gynllunio er mwyn sicrhau cynnydd disgyblion dros amser gan ymateb i ddisgwyliadau dysgu Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ychydig iawn o gynllunio i ddatblygu medrau Cymraeg | • Mae'r ysgol yn adnabod bod angen datblygu medrau Cymraeg disgyblion ac yn dechrau gweithredu yn strategol i wneud hynny.<br>• Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau mewn gwersi Cymraeg.<br>• Mae'r ysgol yn dechrau cynllunio i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol ond nid yw hyn yn ddigon miniog ac nid yw'n | • Mae gweledigaeth a strategaeth a weithredir ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn yr ysgol.<br>• Mae'r ysgol yn ymateb yn addas i ganllawiau categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru.<br>• Mae gwaith cynllunio gofalus er mwyn datblygu medrau Cymraeg y disgyblion yn gynyddol dros amser. Mae'n adlewyrchu disgwyliadau dysgu Cwricwlwm i Gymru. | • Mae gan yr ysgol ethos Cymreig a Chymraeg. Mae diwylliant a threftadaeth Cymru ynghyd a'r iaith yn rhan annatod o weledigaeth yr ysgol.<br>• Mae gan yr ysgol gynllun strategol pendant i ymateb yn gadarn i ganllawiau categoreiddio ysgolion llywodraeth Cymru.<br>• Mae cynllunio gofalus er mwyn datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ystod oedran gan gynnwys cyfnodau trosglwyddo. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | disgyblion wrth drosglwyddo o un cyfnod i un arall.<br>• Ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd gan staff o’r angen i ddatblygu’r Gymraeg gyda disgyblion. Nid ydynt yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws meysydd y cwricwlwm.<br>• Ychydig iawn mae’r ysgol yn wneud er mwyn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru.<br>• Mae ychydig iawn o gyfleoedd i ddisgyblion astudio Cymru a gwneud cysylltiadau rhwng y cyd-destun lleol, Cymreig a rhyngwladol ar draws y cwricwlwm. | adlewyrchu disgwyliadau dysgu Cwricwlwm i Gymru.<br>• Mae ychydig o waith cynllunio bwriadus i ddatblygu medrau Cymraeg y disgyblion wrth drosglwyddo o un cyfnod i un arall.<br>• Mae ychydig gyfleoedd i ddisgyblion glywed y Gymraeg ar draws y cwricwlwm.<br>• Mae ychydig staff yn gyfrifol am addysgu Cymraeg i ddisgyblion ac yn cymryd cyfrifoldeb am y pwnc.<br>• Mae’r ysgol yn cynnal ychydig o ddigwyddiadau i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, dathlu Gŵyl Dewi, Eisteddfod Ysgol, Santes Dwynwen, Diwrnod Miwsig Cymru.<br>• Mae disgyblion yn cael ychydig gyfleoedd i astudio Cymru a gwneud cysylltiadau rhwng y cyd-destun lleol, Cymreig a rhyngwladol ar draws y cwricwlwm. | • Mae cydbwysedd addas i’r cwricwlwm gan gynnwys lle amlwg i’r Gymraeg a chyfleoedd i gyfathrebu yn y Gymraeg mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, defnyddio ymadroddion a chwestiynau sylfaenol mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd allgyrsiol i ddefnyddio’r Gymraeg.<br>• Ystyrir cynllunio ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gynyddol wrth iddynt drosglwyddo o un cyfnod i’r nesaf ac ar draws y cwricwlwm.<br>• Mae mwyafrif y staff yn ymrwymo i wella eu Cymraeg a’i defnyddio gyda disgyblion. Maent yn datblygu eu haddysgeg i ystyried sut mae disgyblion yn caffael a datblygu’r Gymraeg.<br>• Mae gan yr ysgol galendr o ddigwyddiadau i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru. Mae sylw i’r agwedd hon yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ysgol.<br>• Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i astudio Cymru a chysylltu'r cyd-destun lleol, Cymreig a | • Mae cyfleoedd bwriadus a chynyddol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau Cymraeg mewn pynciau ar draws y cwricwlwm ac yn allgyrsiol.<br>• Mae bron pob un aelod o staff yn ymrwymo i’r Gymraeg ac yn ymdrechu i’w defnyddio yn rheolaidd a chynyddol.<br>• Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o addysgeg caffael a datblygu iaith.<br>• Mae cyfleoedd cyson a chyfoethog i ddisgyblion astudio’r ardal leol, Cymru a thu hwnt gan wneud cysylltiadau soffistigedig rhwng y cyd-destunau hyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | rhyngwladol. Cynllunnir y cyfleoedd hyn yn fwriadus. | |
| Y sefyllfa gyfredol Dysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg | Mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau Cymraeg.<br>Yn aml nid ydynt yn datblygu eu medrau yn gynyddol.<br>Yn gyffredinol mae disgyblion yn ddihyder iawn wrth ddefnyddio eu medrau Cymraeg. | Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau Cymraeg. Maent yn dechrau dangos cynnydd dros amser yn eu gwersi Cymraeg. Maent yn gallu dilyn cyfarwyddiadau ac ateb cwestiynau syml yn y Gymraeg mewn pynciau ar draws y cwricwlwm ac mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol. | Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg. Maent yn hyderus wrth gyfrannu ar lafar yn eu gwersi Cymraeg. Maent yn ymateb yn addas i gyfarwyddiadau a chwestiynau mwy cymhleth mewn gwersi ar draws y cwricwlwm gan gynnwys terminoleg bynciol. | Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn eu medrau Cymraeg. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg i ateb cwestiynau a chynnal sgyrsiau ar draws y cwricwlwm. Maent yn gallu defnyddio terminoleg bynciol yn hyderus. |
| **Continwwm datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion** | | | | |
| | **Dechrau'r daith** | **Gwneud cynnydd** | **Adeiladu momentwm** | **Cynnal safonau uchel** |
| Gweledigaeth strategol | • Sefydlu gweledigaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn yr ysgol.<br>• Mae'r Gymraeg yn rhan o Gynllun Gwella'r Ysgol. | • Mae gan yr ysgol weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r Gymraeg dros gyfnod.<br>• Mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o Gynllun Gwella'r Ysgol.<br>• Mae staff yr ysgol yn deall y weledigaeth hon. | • Mae staff yr ysgol yn deall eu rôl ac yn ymrwymo i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y Gymraeg. Maent yn cydweithio er mwyn gweithredu cynllun gwella'r ysgol ar gyfer y Gymraeg. | • Mae'r ysgol yn parhau i wireddu ei gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg.<br>• Mae'n adolygu'r weledigaeth yn rheolaidd gan osod disgwyliadau uchel.<br>• Mae'r holl staff yn cyfrannu i wireddu'r weledigaeth hon. |
| Datblygu'r gweithlu Dysgu Proffesiynol | Sefydlu trefniadau dysgu proffesiynol i gynnig cymorth i staff:<br>• wella eu medrau Cymraeg personol<br>• ddefnyddio'r Gymraeg sylfaenol gyda disgyblion (geiriau a berfau gorchmynnol syml)<br>• gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am | Mae gan yr ysgol drefniadau dysgu proffesiynol cadarn i:<br>• helpu staff i wella eu medrau Cymraeg personol yn gynyddol dros amser<br>• helpu staff i ddefnyddio gorchmynion syml yn y Gymraeg mewn gwersi; mae cynllun clir i ddatblygu hyn<br>• gefnogi cynllunio cwricwlaidd i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd | Mae gan yr ysgol drefniadau dysgu proffesiynol cadarn i:<br>• helpu staff i wella eu medrau Cymraeg personol yn gynyddol dros amser<br>• helpu staff i ddefnyddio gorchmynion a chwestiynau wedi'u cynllunio i annog disgyblion i ddefnyddio eu medrau Cymraeg ar draws rhai pynciau'r cwricwlwm | Mae gan yr ysgol drefniadau dysgu proffesiynol cadarn sydd yn cefnogi gwelliant parhaus gan:<br>• helpu staff i wella eu medrau Cymraeg personol yn gynyddol dros amser<br>• helpu staff i ddefnyddio gorchmynion a chwestiynau wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu medrau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gymru a manteision dwyieithrwydd | cyson i ddysgu am Gymru a manteision dwyieithrwydd | • ddatblygu addysgeg caffael a datblygu'r Gymraeg<br>• ddarparu cyfleoedd cyson i staff gydweithio er mwyn cynllunio cwricwlwm ble mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddysgu am Gymru a manteision amlieithrwydd | Cymraeg ar draws pynciau'r cwricwlwm<br>• ddatblygu addysgeg caffael a datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm<br>• ddarparu cyfleoedd cyson i staff gydweithio'n fwriadus er mwyn cynllunio ac adolygu'r cwricwlwm fel bod cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am Gymru a manteision amlieithrwydd |
| Cynllunio strategol i wella gallu arweinyddiaeth | Dynodi rolau a chyfrifoldebau i ddatblygu'r Gymraeg gan gynnwys:<br>• arwain datblygu'r Gymraeg yn strategol<br>• datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg staff a disgyblion<br>• datblygu'r ymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ynghyd a manteision dwyieithrwydd | Mae arweinwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran datblygu'r Gymraeg gan gynnwys:<br>• cyfrifoldeb strategol penodol am ddatblygu'r Gymraeg yn yr ysgol gan gynnwys dysgu proffesiynol<br>• hunan werthuso'r ddarpariaeth gan ddechrau adnabod ei effaith ar fedrau Cymraeg disgyblion ac adnabod camau gwella priodol | Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu cyfrifoldebau i sicrhau datblygu'r Gymraeg gan gynnwys:<br>• cyfrifoldeb am ddatblygu'r Gymraeg yn gynyddol gan gynnwys dysgu proffesiynol sy'n ffocysu ar ddatblygu methodoleg addysgu iaith effeithiol<br>• hunan werthuso'r ddarpariaeth Gymraeg yn effeithiol er mwyn adnabod camau gwella penodol ar gyfer gwella medrau Cymraeg disgyblion | Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall y cysylltiadau rhwng:<br>• prosesau hunan werthuso effeithiol<br>• cynllunio ar gyfer gwella pwrpasol<br>• dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion<br><br>Mae arweinwyr yn ffocysu ar welliant a datblygiad parhaus gan olygu bod yr ysgol yn gynyddol alluogi disgyblion i ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. |
| Addysgu a Chwricwlwm | • Sicrhau bod staff yn deall sut i sefydlu arferion sylfaenol defnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth e.e. cyfarchion.<br>• Datblygu'r cwricwlwm i gynnwys y Gymraeg a | • Sicrhau bod staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth gan gynnwys cyfarchion a gorchmynion syml.<br>• Datblygu'r cwricwlwm i ddatblygu medrau Cymraeg | • Sicrhau bod staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn y dosbarth a thu hwnt gan gynnwys gorchmynion, geirfa bynciol ddwyieithog a chwestiynau syml. | • Sicrhau bod staff yn defnyddio addysgeg caffael iaith yn gyson er mwyn datblygu geirfa a gallu disgyblion i ymateb gan ddefnyddio'r Gymraeg, e.e. modelu, drilio, atgyfnerthu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | chyfeiriadau a'r cyd-destun lleol, Cymreig a rhyngwladol. | y disgyblion a'u dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y cyd-destun lleol, Cymreig a rhyngwladol. | • Datblygu cwricwlwm ble datblygir medrau Cymraeg disgyblion yn gynyddol a bwriadus gan wneud cysylltiadau rhwng cyfnodau a phynciau. | • Datblygu cwricwlwm ble mae ffocws ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gynyddol fel bod cysylltiadau bwriadus rhwng cyfnodau a phynciau'r cwricwlwm.<br>• Staff yn ymwybodol o'r disgwyliadau ar gyfer pob carfan o ddisgyblion gan gynllunio eu haddysgu i ymateb i anghenion penodol y disgyblion. Er enghraifft, anghenion disgyblion aelwydydd Saesneg mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg. |

# Atodiad dau – Cwestiynau'r holiadur

## Cwestiynau holiadur myfyrwyr

1. Rwy'n cwblhau fy rhaglen addysg gychwynnol athrawon trwy gyfrwng:

- ☐ y Gymraeg
- ☐ y Saesneg

2. Rwyf wedi cwblhau lleoliadau ysgol trwy gyfrwng:

- ☐ y Gymraeg
- ☐ y Saesneg
- ☐ y ddwy iaith

3. Rwy'n cwblhau fy rhaglen addysg gychwynnol athrawon yn:

- ☐ Partneriaeth Aberystwyth
- ☐ Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (APLP)
- ☐ CABAN
- ☐ Partneriaeth Caerdydd
- ☐ Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- ☐ Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
- ☐ Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Prifysgol De Cymru
- ☐ Rwy'n hyfforddi y tu allan i Gymru
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

4. Mae'r Fframwaith Cymhwysedd yn y Gymraeg ar gyfer Ymarferwyr Addysg yn darparu fframwaith i'ch helpu i benderfynu sut i ddisgrifio lefel eich medrau Cymraeg.

Byddwn yn disgrifio fy medrau Cymraeg fel:

- ☐ Hyfedr
- ☐ Uwch

- ☐ Canolradd
- ☐ Sylfaen
- ☐ Mynediad
- ☐ Dim medrau Cymraeg

5. I ba raddau ydych chi’n cytuno, neu’n anghytuno, â’r datganiadau canlynol:

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Helpodd y sesiynau Cymraeg wedi’u harwain gan y Brifysgol i mi ddatblygu fy medrau Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cefais i gymorth mewn ysgolion lleoli i ddatblygu fy medrau Cymraeg yn ystod fy rhaglen addysg gychwynnol athrawon | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cefais gymorth yn ystod sesiynau ysgolion arweiniol i ddatblygu fy medrau Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ar ôl yr hyfforddiant a gefais i ddatblygu fy medrau Cymraeg, rwy’n hyderus i ddefnyddio fy medrau Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ar ôl yr hyfforddiant a gefais i ddatblygu fy addysgeg i gefnogi medrau Cymraeg disgyblion, rwy’n hyderus yn yr agwedd hon ar fy addysgu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Os hoffech chi esbonio ymhellach, gwnewch hynny yma:

## Cwestiynau Holiadur athrawon newydd gymhwyso

1. Fe wnes i gwblhau fy rhaglen addysg gychwynnol athrawon trwy gyfrwng:

- ☐ y Gymraeg
- ☐ y Saesneg

2. Yn ystod fy rhaglen addysg gychwynnol athrawon, fe wnes i gwblhau lleoliadau ysgol trwy gyfrwng:

- ☐ y Gymraeg
- ☐ y Saesneg
- ☐ y ddwy iaith

3. Fe wnes i gwblhau fy rhaglen addysg gychwynnol athrawon yn:

- ☐ Partneriaeth Aberystwyth
- ☐ Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (APLP)
- ☐ CABAN
- ☐ Partneriaeth Caerdydd
- ☐ Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- ☐ Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
- ☐ Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Prifysgol De Cymru
- ☐ Wnes i ddim hyfforddi yng Nghymru
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

4. Mae'r Fframwaith Cymhwysedd yn y Gymraeg ar gyfer Ymarferwyr Addysg yn darparu fframwaith i'ch helpu i benderfynu sut i ddisgrifio lefel eich medrau Cymraeg.

Byddwn yn disgrifio fy medrau Cymraeg fel:

- ☐ Hyfedr
- ☐ Uwch
- ☐ Canolradd
- ☐ Sylfaen
- ☐ Mynediad

- [ ] Dim medrau Cymraeg

5. Ar hyn o bryd, rwy’n gweithio mewn:

- [ ] Ysgol Gynradd / Ysgol Feithrin
- [ ] Ysgol Uwchradd
- [ ] Ysgol Bob Oed
- [ ] Ysgol Arbennig
- [ ] Ddim yn berthnasol

6. Ym mha awdurdod lleol ydych chi’n gweithio ar hyn o bryd?

7. Yn fy swydd bresennol, rwy’n addysgu trwy gyfrwng:

- [ ] Y Gymraeg
- [ ] Yn ddwyieithog
- [ ] Y Saesneg
- [ ] Ddim yn berthnasol

8. I ba raddau ydych chi’n cytuno, neu’n anghytuno, â’r datganiadau canlynol:

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Helpodd y sesiynau Cymraeg wedi’u harwain gan y Brifysgol i mi ddatblygu fy medrau Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cefais i gymorth mewn ysgolion lleoli i ddatblygu fy medrau Cymraeg yn ystod fy rhaglen addysg gychwynnol athrawon | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cefais gymorth yn ystod sesiynau ysgolion arweiniol i ddatblygu fy medrau Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ers ennill Statws Athro Cymwys (SAC), rwyf wedi cael cymorth ar | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| gyfer datblygu fy medrau Cymraeg trwy ddysgu proffesiynol | | | | | |
| Ers ennill Statws Athro Cymwys (SAC), rwyf wedi cael cymorth i ddatblygu fy addysgeg i addysgu medrau Cymraeg i ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Os hoffech chi esbonio ymhellach, gwnewch hynny yma:

9. Pa rai o'r canlynol sydd wedi eich rhwystro rhag datblygu eich medrau Cymraeg personol? Graddiwch y ffactorau o'r mwyaf arwyddocaol i'r lleiaf arwyddocaol (1= rhwystr mwyaf arwyddocaol, 2= rhwystr lleiaf arwyddocaol).

Gallwch ddefnyddio'r gwymplen i ddewis rhif ar gyfer pob datganiad, neu lusgo a gollwng y datganiadau yn y drefn o'ch dewis.

| | |
|---|---|
| Diffyg adnoddau | ☐ |
| Diffyg dysgu proffesiynol ar gael i gefnogi datblygiad medrau Cymraeg personol | ☐ |
| Diffyg amser | ☐ |
| Nid yw datblygu'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth yn fy ysgol i | ☐ |
| Dydw i ddim yn teimlo bod datblygu medrau Cymraeg yn berthnasol i fy maes pwnc | ☐ |

Os hoffech chi esbonio ymhellach, gwnewch hynny yma:

10. Beth fyddai'n eich helpu i ddatblygu eich medrau Cymraeg personol?

11. Beth fyddai'n eich helpu i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg?

# Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar:

- ganfyddiadau arolygon Partneriaeth AGA Caerdydd, Yr Athrofa: Partneriaeth Dysgu Proffesiynol, Partneriaeth AGA Aberystwyth
- gyfarfodydd ag arweinwyr Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe, y Brifysgol Agored, CaBan, Partneriaeth AGA Caerdydd, Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru.
- ymweliadau a 17 o ysgolion partneriaeth
- cyfweliadau â swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol
- cyfweliadau ag arweinwyr o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- ymatebion arolwg gan 108 o fyfyrwyr addysg gychwynnol athrawon
- ymatebion arolwg gan 106 o athrawon newydd gymhwyso
- adroddiadau arolygu ysgolion o fis Medi 2022 i fis Gorffennaf 2023

Mae sampl yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystyried eu rôl fel ysgol partneriaeth addysg gychwynnol athrawon. Cynigiodd y partneriaethau enwau ysgolion ble roeddent yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau Cymraeg myfyrwyr yn gryfder.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- cyfweliadau â phenaethiaid, uwch fentoriaid, mentoriaid dosbarth a mentoriaid iaith ble roedd hyn yn nodwedd o ddarpariaeth y bartneriaeth
- cyfweliadau â myfyrwyr
- cyfweliadau ag athrawon newydd gymhwyso
- teithiau dysgu
- arsylwadau o sesiynau mentora
- craffu ar ddogfennaeth berthnasol

## Rhestr o'r ysgolion

### Ysgolion cynradd

Ysgol Gynradd All Saints
Ysgol Cae Top
Ysgol Gynradd Clase
Ysgol Gynradd Coed Eva
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmllynfell
Ysgol Gynradd Dolau
Ysgol yr Hendre
Ysgol Gymraeg Ifor Hael
Ysgol Treganna
Ysgol Gynradd Ystrad Mynach

**Ysgolion uwchradd**

Ysgol Alun
Ysgol David Hughes
Ysgol Gyfun Dwr-y-Felin
Ysgol Uwchradd Fitzalan
Ysgol Uwchradd Pontypridd
Ysgol Stanwell

**Ysgolion pob oed**

Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Addysg Gychwynnol Athrawon** | Sector sydd yn sicrhau hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd eisiau bod yn athrawon. Gall gynnwys rhaglenni is ac ôl graddedig ynghyd a rhaglenni rhan amser. |
| **Addysgeg caffael iaith** | Theori ac arfer addysgu. Mae addysgeg caffael iaith yn llywio strategaethau addysgu a gweithredoedd athro i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau. |
| **Cyfnod cyfoethogi** | Cyfle i fyfyrwyr brofi sector neu gyfnod mewn ysgol wahanol. Cyfnod byrrach na chyfnod profiad ysgol. |
| **Ein Llais Ni** | Prosiect wedi ei arwain gan GwE mewn cydweithrediad ag ysgolion ar draws rhanbarth y gogledd a Phrifysgol Bangor |
| **Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg** | Cyhoeddwyd y fframwaith yn 2020 i gefnogi athrawon i adnabod a disgrifio eu cymhwysedd yn y Gymraeg. Mae partneriaethau yn defnyddio'r fframwaith i nodi man cychwyn a chynnydd myfyrwyr yn y Gymraeg. |
| **Ysgol partner ehangach** | Ysgol sydd yn rhan o'r bartneriaeth ond nid yw'n ysgol arweiniol. Mae myfyrwyr yn derbyn cyfleoedd i ymarfer eu haddysgu yma. |
| **Mentor** | Aelod o staff yn yr ysgol bartner sy'n arwain, cefnogi, goruchwylio a darparu adborth i fyfyrwyr |
| **Mentor iaith** | Aelod o staff yn yr ysgol partner sydd â chyfrifoldeb penodol am gefnogi myfyrwyr i ddatblygu'r Gymraeg |
| **Myfyrwyr** | Athrawon dan hyfforddiant ar raglenni addysg gychwynnol athrawon |
| **Partneriaeth** | Cytundeb ffurfiol rhwng prifysgol ac ysgolion partneriaeth ble maent yn cydweithio fel partneriaid cyfartal i ddylunio a gweithredu rhaglen AGA |
| **Sesiynau Cymraeg** | Sesiynau i ddatblygu medrau Cymraeg myfyrwyr a addysgir fel arfer gan y brifysgol |
| **Tiwtor** | Darlithydd yn y brifysgol sydd â chyfrifoldeb am fyfyrwyr rhaglen addysg gychwynnol athrawon |
| **Uwch fentor** | Mentor yn yr ysgol sydd â chyfrifoldeb am fentora yn yr ysgol |

| | |
|---|---|
| **Ysgolion Arweiniol** | Ysgolion sydd wedi gwneud cytundeb partneriaeth i chwarae rôl arweiniol yn addysg gychwynnol athrawon. Maent yn cyfrannu i arweinyddiaeth y bartneriaeth ac mae ganddynt gydgyfrifoldeb am hunan-werthuso a sicrhau ansawdd y rhaglenni. Maent yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol, arsylwi ac addysgu ar gyfer myfyrwyr. |
| **Ysgolion y bartneriaeth ehangach** | Ysgolion sydd yn darparu profiad addysgu i fyfyrwyr. Nid ydynt yn ysgol arweiniol. |
| **Ysgolion y bartneriaeth** | Ysgolion sydd yn rhan o bartneriaeth addysg gychwynnol athrawon. Gall olygu ysgol arweiniol neu ysgol partneriaeth ehangach. |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Bryer, N; Duggan, B (2018) *Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR, rhif 54/2018. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180928-evaluation-welsh-medium-provision-initial-teacher-education-cy.pdf. [Darllenwyd 3 Mai 2023].

Cyngor Ewrop (2020) *Common framework of reference Strasbourg: Council of Europe* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages/introduction-and-context [Darllenwyd 11 Mai 2023]

Cyngor y Gweithlu Addysg (2022) *Mewnwelediadau Data, Nifer yr Athrawon Ysgol Newydd Gymhwyso sydd wedi'u cofrestru gyda CGA*, Caerdydd: Cyngor y Gweithlu Addysg. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/documents/research-and-statistics/research-reports/2244-registered-newly-qualified-school-teachers-nqts-in-wales/file.html [Darllenwyd 4 Mai 2023].

Estyn (2018) *Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn addysg gychwynnol athrawon* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Mentoring%2520in%2520initial%2520teacher%2520education%2520-%2520cy.pdf [Darllenwyd 3 Mai 2023].

Estyn (2022a) *Diwygio Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru: cryfderau sy'n dod i'r amlwg a meysydd i'w hystyried* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-10/Diwygio%20Addysg%20Gychwynnol%20Athrawon%20yng%20Nghymru%20-%20cryfderau%20sy%E2%80%99n%20dod%20i%E2%80%99r%20amlwg%20a%20meysydd%20i%E2%80%99w%20hystyried_0.pdf [Darllenwyd 3 Mai 2023].

Estyn (2022b) *Addysg Drochi Cymraeg – Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3 i 11 mlwydd oed* Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/document-page/20964/cynnwys?_ga=2.219609306.219814635.1692003608-856272648.1692003608 [Darllenwyd 24 Mai 2023].

Iorwerth, H (2020) *Nodyn briffio – Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru* Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/bpjjarp0/y-gymraeg-ar-gweithlu-addysg-statudol-yng-nghymru.pdf [Darllenwyd 4 Mai 2023].

Llywodraeth Cymru (2017a) *Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg?_ga=2.91243226.1509248440.1684336458-606895257.1684222819&_gl=1%2Aswzo64%2A_ga%2ANjA2ODk1MjU3LjE2ODQyMjI4MTk.%2A_ga_L1471V4N02%2AMTY4NDMzNjQ1OC44LjAuMTY4NDMzNjQ1OC4wLjAuMA [Darllenwyd 25 Ebrill 2023].

Llywodraeth Cymru (2017b) *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf [Darllenwyd 5 Mai 2023].

Llywodraeth Cymru (2017c) *Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017-i-2021?_ga=2.91243226.1509248440.1684336458-606895257.1684222819&_gl=1%2A1dv5i6m%2A_ga%2ANjA2ODk1MjU3LjE2ODQyMjI4MTk.%2A_ga_L1471V4N02%2AMTY4NDMzNjQ1OC44LjEuMTY4NDMzNjQ4MC4wLjAuMA [Darllenwyd 25 Ebrill 2023].

Llywodraeth Cymru (2018) *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Rhif: 001/2018. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf

Llywodraeth Cymru (2021) *Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2021-i-2026?_ga=2.262752204.1509248440.1684336458-606895257.1684222819&_gl=1%2A1flla8q%2A_ga%2ANjA2ODk1MjU3LjE2ODQyMjI4MTk.%2A_ga_L1471V4N02%2AMTY4NDMzNjQ1OC44LjEuMTY4NDMzNjUwNC4wLjAuMA [Darllenwyd 25 Ebrill 2023].

Llywodraeth Cymru (2022a) *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg.pdf [Darllenwyd 3 Gorffennaf 2023].

Llywodraeth Cymru (2022b) *Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2022/12/3/1671609478/welsh-language-wales-census-2021.pdf [Darllenwyd 3 Mai 2023].

Llywodraeth Cymru (2022c) *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg?_ga=2.262752204.1509248440.1684336458-606895257.1684222819&_gl=1%2A1u0epgh%2A_ga%2ANjA2ODk1MjU3LjE2ODQyMjI4MTk.%2A_ga_L1471V4N02%2AMTY4NDMzNjQ1OC44LjEuMTY4NDMzNjUyNS4wLjAuMA [Darllenwyd 25 Ebrill 2023].

Llywodraeth Cymru (2022d) *Strategaeth y Gymraeg: adroddiad blynyddol 2021 i 2022* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/strategaeth-y-gymraeg-adroddiad-blynyddol-2021-i-2022?_ga=2.262752204.1509248440.1684336458-606895257.1684222819&_gl=1%2Al6gnyl%2A_ga%2ANjA2ODk1MjU3LjE2ODQyMjI4MTk.%2A_ga_L1471V4N02%2AMTY4NDMzNjQ1OC44LjEuMTY4NDMzNjU0OS4wLjAuMA [Darllenwyd 3 Mai 2023].

Llywodraeth Cymru (2022e) *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032 awdurdodau lleol* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-2022-i-2032?_ga=2.91383770.1509248440.1684336458-606895257.1684222819&_gl=1%2Aszwv2h%2A_ga%2ANjA2ODk1MjU3LjE2ODQyMjI4MTk.%2A_ga_L1471V4N02%2AMTY4NDMzNjQ1OC44LjEuMTY4NDMzNjU3NC4wLjAuMA [Darllenwyd 25 Ebrill 2023].

Llywodraeth Cymru (2022f) *Cymraeg 2050: cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2022 i 2023* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-cynllun-gweithredu-strategaeth-y-gymraeg-2022-i-2023-html?_ga=2.91383770.1509248440.1684336458-606895257.1684222819&_gl=1%2Asgimov%2A_ga%2ANjA2ODk1MjU3LjE2ODQyMjI4MTk.%2A_ga_L1471V4N02%2AMTY4NDMzNjQ1OC44LjEuMTY4NDMzNjU5NS4wLjAuMA [Darllenwyd 3 Mai 2023].

Llywodraeth Cymru (2022g) *Cymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/cynllunio-eich-cwricwlwm/#welsh-in-english-medium-education [Darllenwyd 3 Mai 2023].

Llywodraeth Cymru (2023a) *Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-bil-addysg-gymraeg-html [Darllenwyd 3 Mai 2023].

Llywodraeth Cymru (2023b) *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif 002/2023. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-05/ar-gyfer-rhaglenni-aga-wediu-hachredu-syn-dechrau-o-1-medi-2024-ymlaen.pdf [Darllenwyd 11 Mai 2023].

Llywodraeth Cymru (2023c) *Bwletin Ystadegol Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru, 2021-2022* Caerdydd: Llywodraeth Cymru SB 19/2023. [Ar-lein]. Ar gael o Initial Teacher Education Wales, 2021/22 (gov.wales) [Darllenwyd 27 Gorffennaf 2023].

Senedd Cymru: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (2023) *Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.* Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://senedd.cymru/media/ahucitff/cr-ld15837-w.pdf [Darllenwyd 19 Mai 2023].

Tavakoli, P. and Jones, R. (2018). *Trosolwg o ymagweddau at gaffael ail iaith ac arferion addysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Rhif yr adroddiad 12/2018. [Ar-lein]. Ar gael o: https://senedd.wales/media/r5sgnreu/cr-ld15837-e.pdf https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180228-overview-approaches-second-language-acquisition-instructional-practices-cy.pdf [Darllenwyd 4 Mai 2023].

Thomas, E (2022) *Addysg, y pandemig a'r Gymraeg* Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd: Darlith O'Donnell [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.youtube.com/watch?v=DC66xHrGcIE [Darllenwyd 24 Ebrill 2023].

Thomas, M (2014) Coleg Cymru *Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cynllun Colegau Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.porth.ac.uk/cy/collection/cynllun-colegaucymru [Darllenwyd 3 Mai 2023].